

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 90/2026

Dyddiad cyhoeddi: 07/10/2026

Gwerthusiad o'r gronfa tai â gofal: adroddiad damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-403-4

Gwerthusiad o'r gronfa tai â gofal: adroddiad damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb, yr Athro Mark Llewellyn, Dr Daniel Bowers a Dr Nyle Davies

Adroddiad Ymchwil Llawn: [Bryer, N. et al (2026). Gwerthusiad o'r gronfa tai â gofal: adroddiad damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 90/2026.]

Ar gael drwy: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-tai-gofal-cyhoeddiad>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Benjamin Lewis

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

03000257438

TimYmchwilTai@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	3
Rhestr o ffigurau	3
Rhestr o dermau	4
1. Cyflwyniad.....	6
1.1. Trosolwg o'r Gronfa Tai â Gofal.....	6
1.2. Nod y Gwerthusiad	7
1.3. Strwythur yr adroddiad.....	7
2. Methodoleg	9
3. Adolygiad polisi a Damcaniaeth Newid	10
3.1. Trosolwg o'r Gronfa Tai â Gofal.....	10
3.2. Rôl y Ddamcaniaeth Newid	11
3.3. Dulliau gwerthuso	11
3.3.1. Dogfennau polisi a echdynnwyd.....	12
3.4. Canfyddiadau allweddol yr adolygiad o dystiolaeth	12
3.4.1. Y prif ganfyddiadau.....	12
3.5. Y Ddamcaniaeth Newid Gychwynnol.....	16
3.5.1. Anghysondebau a heriau'n ymwneud â mesur canlyniadau ac effaith	20
3.6. Sylwadau i gloi.....	21
4. Adolygiad o ddata monitro'r rhaglen.....	23
4.1. Dyraniadau cyfalaf a gwariant	23
4.2. Amrywiad rhanbarthol yn y perfformiad ar wariant	24
4.3. Sut y cyflawnwyd amcanion y rhaglen	26
4.4. Dosbarthiad daearyddol.....	27
4.5. Math o gynllun	30
4.6. Grŵp blaenoriaeth	31
4.7. Proffil y sefydliadau cyflawni.....	32

4.8.	Ffynhonnell gyllido	34
5.	Canfyddiadau o'r cyfweiliadau cwmpasu	37
5.1.	Rhesymeg	37
5.2.	Cyfatebiaeth â chronfeydd eraill	38
5.3.	Dylunio.....	39
5.3.1.	Trefniadau llywodraethu	39
5.3.2.	Y ffordd y gweinyddwyd y rhaglen	41
5.3.3.	Y trefniadau ymgeisio	41
5.3.4.	Cyllid Amcan 3.....	42
5.4.	Cyflawniad a chynnydd y rhaglen hyd yma.....	42
5.4.1.	Defnydd o'r cyllid	42
5.4.2.	Heriau'n ymwneud â chyflawni'r rhaglen	44
5.5.	Casglu data ac adrodd arnynt.....	45
5.5.1.	Allbynnau'r HCF	45
5.5.2.	Canlyniadau'r HCF	46
6.	Casgliadau ac argymhellion cychwynnol.....	49
	Atodiad A Rhaglen waith a fframwaith y gwerthusiad	51
	Atodiad B Canllaw trafod ar gyfer y cyfweiliad cwmpasu.....	60
	Atodiad C Dogfennau polisi a echdynnwyd a'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer echdynnu	65

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Dyraniadau cyfalaf a gwariant yr HCF yn ôl blwyddyn	24
Tabl 4.2: Dyraniad cyfalaf, gwariant a chyfradd gwariant yr HCF yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y cyfnod 4 blynedd 2022 i 2026	24
Tabl 4.3: Cyfanswm gwariant HCF yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2025-26	25
Tabl 4.4: Allbynnau ar gyfer y cynlluniau Amcan 1 a 2 a ariannwyd	26
Tabl 4.5: Proffil ariannol Amcan 3	27
Tabl 4.6: Cynlluniau Amcan 1 a 2 yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.....	28
Tabl 4.7: Dyraniadau a gwariant Amcan 3 yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.....	29
Tabl 4.8: Proffil sefydliadau cyflawni'r cynllun a ariannwyd yn ôl amcan.....	32
Tabl 4.9: Cyllid HCF yn ôl sector cyflawni (Amcanion 1, 2 a 3).....	33
Tabl 4.10: Ffynhonnell gyllido ar gyfer cynlluniau Amcan 1 ac Amcan 2	36

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Damcaniaeth newid	17
Ffigur A.1: Y camau sy'n weddill o'r gwerthusiad	51
Ffigur A.2: Fframwaith gwerthuso	53

Rhestr o dermau

Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi

Dull a ddefnyddir i asesu a mesur y gwerth cymdeithasol ehangach sy'n cael ei greu gan raglen neu ymyrraeth.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Cyrff rhanbarthol statudol sy'n dwyn ynghyd fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Cronfa Gofal Integredig

Cronfa flaenorol Llywodraeth Cymru a oedd yn cefnogi integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac a ragflaenodd y Gronfa Tai â Gofal

Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu

Rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru sydd wedi'i bwriadu i gefnogi canolfannau cymunedol integredig, gofal preswyl a dileu elw o ddarparu gofal preswyl i blant.

Cronfa Integreiddio Rhanbarthol

Cronfa Llywodraeth Cymru sydd wedi'i bwriadu i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol drwy gefnogi gwasanaethau ataliol, integredig a chynaliadwy.

Cronfa Tai â Gofal (HCF)

Rhaglen buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau tai sy'n diwallu anghenion pobl a chanddynt anghenion gofal a chymorth.

Damcaniaeth Newid

Dull a ddefnyddir i ddisgrifio sut a pham y disgwylir i raglen gyflawni ei chanlyniadau bwriadedig, gan gynnwys y cysylltiad rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau ac effeithiau.

Egwyddorion Marmot

Egwyddorion sy'n hyrwyddo dull ataliol, system gyfan, o wella iechyd a llesiant, gan ganolbwyntio ar degwch a chyfiawnder cymdeithasol.

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Grantiau awdurdodau lleol sydd wedi'u cynllunio i helpu i addasu cartrefi ar gyfer pobl anabl neu drigolion hŷn.

Grant Tai Cymdeithasol

Grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i ddarparwyr cofrestredig ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygu tai fforddiadwy.

Gwybodaeth Fonitro

Gwybodaeth y gellir ei defnyddio i asesu gweithrediad, perfformiad ac effeithiolrwydd rhaglen neu weithgaredd.

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Darparwr tai cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru i ddarparu a rheoli tai fforddiadwy.

Lleoliadau y tu allan i'r sir

Lleoliadau a wneir y tu allan i sir enedigol neu ardal leol person.

Rhaglen Lywodraethu

Cynllun strategol Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu ei brif flaenoriaethau, ei hymrwymadau a'i hamcanion polisi dros dymor y Senedd.

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad ag University of South Wales Commercial Services Ltd i gynnal gwerthusiad o'r Gronfa Tai â Gofal (HCF).

1.1. Trosolwg o'r Gronfa Tai â Gofal

Rhaglen gyfalaf sy'n cefnogi tai a llety i bobl agored i niwed mewn cymdeithas a chanddynt anghenion cymorth gofal yw'r HCF. Roedd cyllid o hyd at £242 miliwn ar gael dros gyfnod o 4 blynedd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026 ac roedd cyllid ychwanegol o £61.7 miliwn ar gael ar gyfer 2026 i 2027.

Bwriad yr HCF yw cefnogi datblygiadau preswyl sy'n galluogi unigolion o 5 grŵp blaenoriaeth a chanddynt anghenion gofal a chymorth i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Y 5 grŵp â blaenoriaeth yw:

- pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia
- plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion cymhleth
- pobl niwrowahanol a phobl ag anableddau dysgu ^[troednodyn 1] neu amhariadau niwroddatblygiadol
- gofalwyr di-dâl
- pobl ag anghenion iechyd emosiynol ac anghenion llesiant meddyliol ^[troednodyn 2]

Caiff yr HCF ei dyrannu gan ddefnyddio fformiwla i gefnogi 3 math o gynlluniau a phrosiectau – y rhai sy'n darparu tai â gofal, y rhai sy'n darparu llety a gofal canolraddol, a'r rhai sy'n brosiectau bach. I gefnogi'r strwythur teiran hwn, mae'r HCF yn cynnwys 3 amcan ariannu:

- Amcan 1 (tai â gofal): mae'r amcan hwn yn cefnogi tai a llety y mae'n rhaid eu gosod fel tenantiaethau rhent cymdeithasol (e.e. tai gofal ychwanegol, llety byw â chymorth)
- Amcan 2 (llety a gofal canolraddol): mae'r amcan hwn yn cefnogi buddsoddi mewn darparu llety (e.e. gwelyau argyfwng, gwasanaethau ailalluogi byrdymor). O dan yr

¹ Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y derminoleg a ddewiswyd gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl ag anableddau dysgu. Rydym yn cydnabod nad yw'r term 'pobl ag anableddau dysgu' yn gydnaws ag iaith y model cymdeithasol o ystyried bod y term 'anableddau' yn cael ei ddefnyddio yn lle amhariadau i ddynodi rhwystrau sy'n achosi anabledd.

² Gall pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol weithiau ei chael hi'n anodd cynnal a chadw cartref a gall hynny eu gwneud yn agored i niwed a digartrefedd, gan arwain at ddirywiad pellach yn eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gall cartref diogel a sicr gyda chymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion ddarparu sefydlogrwydd a llwyfan cryf ar gyfer annibyniaeth yn y dyfodol a gwell llesiant.

amcan hwn, nid oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau denantiaethau; caiff y llety ei reoli gan y darparwr

- Amcan 3 (prosiectau bach): mae'r amcan hwn yn cael ei ddyrannu yn ôl disgrisiwn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gall gyfrif am 10% o ddyraniad rhanbarth o'r gronfa. Gall prosiectau gynnwys amrywiaeth o fuddsoddiadau llai (e.e. gwaith atgyweirio, adnewyddu, cyfarpar ac addasiadau i gartrefi sydd eisoes yn bodoli). Gellir ei ddefnyddio hefyd i ategu cost Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol

1.2. Nod y gwerthusiad

Nod y gwerthusiad yw deall y cynnydd a wnaed gan gynlluniau a ariannwyd gan yr HCF i gynyddu'r stoc o dai er mwyn diwallu anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth.

Bwriad y gwerthusiad yw ymdrin ag 8 amcan ymchwil:

- pa mor effeithiol fu'r HCF o ran cyflawni'r amcanion, y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau gweinyddol?
- i ba raddau y mae'r HCF wedi cynorthwyo poblogaethau sy'n heneiddio i barhau i fyw'n annibynnol gyda gofal a chymorth gartref?
- i ba raddau y gwnaeth yr HCF sicrhau bod llety a ddarparwyd i grwpiau sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu byw'n gwbl annibynnol gartref, mor agos â phosibl at adref?
- i ba raddau y mae'r HCF wedi lleihau lleoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer plant ag anghenion mwy dwys, drwy ddarparu llety yn nes at adref?
- sut y mae HCF wedi integreiddio â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso, ac i ba raddau y mae'r HCF wedi cyfrannu at newidiadau mewn modelau gofal?
- pa effaith y mae HCF wedi'i chael ar ddarparu cyfleusterau sy'n darparu gwasanaethau cam i fyny/cam i lawr, ailalluogi ac adsefydlu yn y gymuned?
- i ba raddau y mae'r HCF wedi sicrhau y gall gofalcwyr gael seibiant iddyn nhw eu hunain neu i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt?
- i ba raddau y mae atebion tai HCF yn addas ar gyfer yr hirdymor?

1.3. Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso hwn yn amlinellu'r canlynol:

- y dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad, ym Mhennod 2
- cyd-destun polisi a damcaniaeth newid ar gyfer yr HCF, ym Mhennod 3
- adolygiad o ddata monitro'r rhaglen, ym Mhennod 4
- y canfyddiadau o'r cyfweiliadau cwmpasu a gynhaliwyd, ym Mhennod 5
- casgliadau cychwynnol ac argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried, ym Mhennod 6
- fframwaith gwerthuso a rhaglen waith a fydd yn llywio'r camau sy'n weddill o'r gwerthusiad, yn Atodiad A

2. Methodoleg

Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi'r adroddiad gwerthuso hwn ar y ddamcaniaeth newid a'r fframwaith gwerthuso yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient i gytuno ar y dull o gynnal y gwerthusiad a'r amserlen ac i gael mynediad at y dogfennau perthnasol a'r data'n ymwneud â'r gronfa
- cynnal adolygiad desg o ddogfennau polisi a dogfennau'r rhaglen a datblygu damcaniaeth newid a model rhesymeg sylfaenol ar gyfer yr HCF
- cynnal adolygiad desg o ddata monitro'r rhaglen
- datblygu cymorth cof ar gyfer gwaith cwmpasu (a nodir yn Atodiad B) a hysbysiad preifatrwydd i gyd-fynd ag ef. Defnyddiwyd y cymorth cof fel sail i drafodaethau gyda 4 o swyddogion Llywodraeth Cymru a 24 cynrychiolydd o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i egluro nodau a chanlyniadau bwriadedig yr HCF ac i ddeall model gweithredu'r gronfa yn well. Cynhaliwyd cyfweiliad cwmpasu ychwanegol gyda chynrychiolydd Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i ddeall sut yr oedd y sector yn ymwneud â'r gronfa a chyflwynwyd papur ysgrifenedig ar ran sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i amlinellu eu profiad o'r gronfa.
- hwyluso gweithdy Damcaniaeth Newid gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd yr adborth a gasglwyd o'r gweithdy hwn yn yr adroddiad

3. Adolygiad polisi a Damcaniaeth Newid

3.1. Trosolwg o'r Gronfa Tai â Gofal

Mae'r Gronfa Tai â Gofal (HCF) yn un o elfennau canolog y symudiad strategol tuag at y model gofal "gartref yn gyntaf" yng Nghymru, gan alluogi pobl ag anghenion gofal a chymorth i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau am gyfnod hwy. Mae'n ymateb i alw cynyddol (yn enwedig ymhlith pobl hŷn a'r rhai ag anghenion cymhleth) ac i gyfyngiadau'r modelau gofal traddodiadol, sefydliadol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r HCF yn rhaglen buddsoddiad cyfalaf ac yn ysgogydd strategol, sy'n cefnogi datblygu tai sy'n galluogi atal afiechyd, annibyniaeth, a chymorth yn y gymuned er budd plant, oedolion ac oedolion hŷn.

Mae'r gronfa'n gweithredu drwy fuddsoddiad cyfalaf mewn tai a llety sy'n gysylltiedig â gofal, gan gynnwys llety byw â chymorth, tai arbenigol, a darpariaeth gofal canolraddol. Ei mecanwaith graidd yw cynyddu'r cyflenwad o amgylcheddau tai priodol ac addasadwy sy'n cefnogi modelau darparu gofal newydd. Mae hyn yn adlewyrchu pwyslais polisi ehangach ar y model cymdeithasol o anabledd, lle mae amgylcheddau hygyrch yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddylanwadu ar ganlyniadau.

Mae fframwaith polisi a deddfwriaethol cryf yn sail i'r HCF, gan gynnwys [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), sy'n hyrwyddo annibyniaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), sy'n pwysleisio dulliau hirdymor, integredig. Mae hefyd yn cyd-fynd â [Cymru Iachach](#), sy'n amlinellu symudiad system-gyfan tuag at waith atal a gwasanaethau cymunedol yn ogystal ag [Egwyddorion Marmot](#) i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Yn bwysig ddigon, mae'r HCF yn gweithredu o fewn system gyllido a diwygio ehangach, ochr yn ochr â rhaglenni fel y [Gronfa Integreiddio Rhanbarthol](#) a'r [Cronfa gyfalaf integreiddio ac ailgydbwyso](#). O fewn y dirwedd hon, mae'r HCF yn darparu'r elfen tai a seilwaith, ac mae rhaglenni eraill yn cefnogi darparu gwasanaethau, integreiddio a datblygu'r farchnad. Felly mae ei heffaith yn dibynnu ar ba mor effeithiol y mae'r elfennau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae'r rhesymeg dros y gronfa yn deillio o bwysau parhaus ar y system, gan gynnwys prinder tai addas, cyfyngiadau ar y gweithlu, a phwysau ar wasanaethau iechyd a gofal, yn enwedig o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty a chapasiti cymunedol. Mae'r ffactorau hyn yn atgyfnerthu'r angen am atebion sy'n seiliedig ar dai sy'n gwella llif y system ac yn lleihau dibyniaeth ar ofal mewn argyfwng, gan dynnu sylw hefyd at y ffaith nad yw buddsoddiad cyfalaf yn unig yn ddigonol heb gefnogaeth ehangach i'r system.

At ei gilydd, mae'r HCF yn fuddsoddiad sylweddol sydd wedi'i anelu at integreiddio tai a gofal er mwyn gwella annibyniaeth a llesiant, ond mae effeithiolrwydd y gronfa yn dibynnu ar y graddau y mae darparu tai wedi'i gysylltu'n llwyddiannus â darparu gwasanaethau a diwygio'r system ehangach.

3.2. Rôl y Ddamcaniaeth Newid

Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn darparu fframwaith strwythuredig i ddeall sut a pham y disgwylir i'r HCF gyflawni ei chanlyniadau bwriadedig. O fewn ymyriadau polisi cymhleth fel yr HCF, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn offeryn hanfodol ar gyfer mynegi'r cysylltiadau rhesymegol rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau rhaglenni. Mae'n galluogi rhanddeiliaid i egluro'r rhagdybiaethau sy'n sail i ddyluniad y rhaglen ac i nodi'r llwybrau achosol sy'n creu effaith.

Yng nghyd-destun yr HCF, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn arbennig o bwysig o ystyried natur hyblyg y gronfa a'r gallu i'w haddasu i anghenion lleol. Drwy ddiffinio'n glir sut y mae adnoddau'n cael eu trawsnewid yn fanteision gweladwy i aelwydydd, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng bwriad polisi a gweithrediad y rhaglen. Mae'n darparu fframwaith cyffredin ar gyfer asesu sut y cyflawnir y rhaglen, gan ganiatáu cymharu gwahanol awdurdodau lleol a nodi meysydd ble ceir cysondeb neu wahaniaethau.

Ar ben hynny, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn cefnogi ymarfer gwerthuso drwy bennu sylfaen glir ar gyfer mesur a dadansoddi. Mae'n galluogi nodi dangosyddion priodol ym mhob cam o'r ymyrraeth, o allbynnau uniongyrchol (megis nifer y cynlluniau a gymeradwywyd) i ganlyniadau tymor hwy (megis gwell annibyniaeth). Mae'r Ddamcaniaeth Newid hefyd yn hwyluso ystyried ffactorau allanol (megis newidiadau demograffig, amodau economaidd, a dynameg y farchnad lafur) a allai ddylanwadu ar effeithiolrwydd y rhaglen. Yn y modd hwn, mae'n gweithredu nid yn unig fel model disgrifiadol ond fel offeryn ymarferol i arwain y broses weithredu a gwerthuso.

3.3. Dulliau gwerthuso

Cynlluniwyd y gwerthusiad hwn i asesu i ba raddau y mae'r HCF yn cyflawni ei chanlyniadau bwriadedig, yn unol â'r cysyniadau yn y Ddamcaniaeth Newid. Dylid nodi bod y gwaith o ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid wedi'i wedi cael ei wneud yn ôl-weithredol, h.y. ar ôl i'r Gronfa fod yn weithredol am 4 blynedd, ac mae'n seiliedig ar y dogfennau polisi a oedd ar waith ar y pryd. Mae hyn yn annodweddiadol a bydd yn dylanwadu ar y broses o gasglu data a mesur effaith.

Cynhaliwyd adolygiad strwythuredig o dystiolaeth, a oedd yn canolbwyntio ar lenyddiaeth bresennol a dogfennau polisi cysylltiedig (gweler adran 3.3.1).

Y nod oedd canfod themâu, mecanweithiau a brif ganlyniadau a allai fod yn sylfaen i wella'r Ddamcaniaeth Newid a meithrin dealltwriaeth ehangach o effeithiolrwydd y rhaglen.

3.3.1. Dogfennau polisi a echdynnwyd

Gellir gweld rhestr o'r dogfennau polisi a adolygwyd ac sy'n sail i'r Ddamcaniaeth Newid yn Atodiad C.

Roedd y dull methodolegol yn canolbwyntio ar echdynnu astudiaethau ac adroddiadau perthnasol yn systematig. Nodwyd ffynonellau drwy chwiliadau wedi'u targedu o ddogfennau polisi. Sefydlwyd meini prawf ar gyfer cynnwys dogfennau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol, a rhoddwyd blaenoriaeth i astudiaethau a oedd yn mynd i'r afael â buddsoddiad cyfalaf, tai â chymorth, llety arbenigol, gofal yn y gymuned a modelau gofal integredig.

Canolbwyntiodd y broses echdynnu data ar sawl dimensiwn craidd, gan gynnwys dyluniad y rhaglen, dulliau cyflawni, poblogaethau targed, a'r canlyniadau a welwyd. Rhoddwyd sylw arbennig i nodi cysylltiadau achosol rhwng elfennau ymyrraeth a chanlyniadau, yn ogystal ag unrhyw heriau a adroddwyd neu ganlyniadau anfwriadol. Cafodd y canfyddiadau eu syntheseiddio'n thematig, gan ganiatáu i batrymau a mewnwleidiadau cylchol gael eu nodi ar draws y corff o dystiolaeth.

Adolygwyd pob dogfen bolisi gan aelod o'r tîm ymchwil a gwblhaodd ffurflen echdynnu. Yna adolygwyd y ffurflenni hyn gan aelod arall o'r tîm ymchwil i sicrhau bod y broses echdynnu yn gyflawn ac yn gywir. Yna, cytunodd y tîm ymchwil ar brif oblygiadau'r canfyddiadau a'r cysylltiadau rhyngddynt a'r datblygiadau a dilysu'r Ddamcaniaeth Newid a'r gronfa yn ehangach.

3.4. Canfyddiadau allweddol yr adolygiad o dystiolaeth

Rhoddir crynodeb o brif ganfyddiadau'r broses echdynnu isod; yna dilynir hyn gan drafodaeth fanylach ar y prif ganfyddiadau. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys y Ddamcaniaeth Newid gychwynnol (gweler Ffigur 3.1) a chânt eu hadlewyrchu ynddi.

3.4.1. Y prif ganfyddiadau

- **Model ymyrraeth ar yr ochr gyflenwi wedi'i arwain gan gyfalaf**

- Mae'r HCF a'r rhaglenni cysylltiedig yn dibynnu'n bennaf ar fuddsoddiad cyfalaf i ehangu seilwaith a darpariaeth tai fel sbardun ar gyfer newid.
- **Mae cyfalaf yn gweithredu fel mecanwaith galluogi nid mecanwaith uniongyrchol**
 - Mae buddsoddiad yn creu'r amodau ar gyfer newid (e.e. seilwaith, cydleoli), ond mae'r canlyniadau'n dibynnu ar sut y mae gwasanaethau'n gweithredu o fewn yr amgylcheddau hyn.
- **Mae integreiddio yn elfen ganolog ond nid yw'n cael ei weithredu'n gadarn**
 - Mae integreiddio ar draws y sectorau tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn rhagdybiaeth graidd o effaith, ond yn aml mae'n gysyniadol yn hytrach nag wedi'i ddiffinio'n glir yn ymarferol.
- **Llwybrau achosol hir ac anuniongyrchol**
 - Mae'r cysylltiad rhwng buddsoddiad cyfalaf a chanlyniadau ar lefel y system (e.e. llai o alw am ofal mewn ysbytai) yn gymhleth, yn cynnwys camau lluosog, ac yn anodd ei briodoli'n uniongyrchol.
- **Ceir dibyniaeth gref ar amodau'r system a ffactorau allanol**
 - Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol, gan gynnwys capasiti'r gweithlu, cyllid refeniw, ac effeithiolrwydd partneriaethau.
- **Amrywiad mewn gweithrediad rhanbarthol**
 - Mae cyflawni'r rhaglen drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnig hyblygrwydd ond yn arwain at wahaniaethau o ran y ffordd y caiff y gronfa ei defnyddio a'r profiad ohoni.
- **Newid aml-lefel gyda phwyslais ar lefel y system**
 - Mae ymyriadau'n targedu ailstrwythuro systemau ac ailgyflunio gwasanaethau, gyda chanlyniadau unigol yn arwain at effeithiau anuniongyrchol yn is i lawr y gadwyn.
- **Tystiolaeth o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng amserlenni a chanlyniadau**
 - Ceir gwrthgyferbyniad rhwng cylchoedd cyllid cyfalaf byrdymor ac uchelgeisiau hirdymor o ran trawsnewid systemau a chanlyniadau ar lefel y boblogaeth.

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn amlygu at set o themâu cyson a chysylltiedig ynghylch sut y disgwylir i'r HCF a rhaglenni cysylltiedig weithredu, a'r graddau y mae eu rhagdybiaethau sy'n sail iddynt yn cael eu cefnogi gan resymeg polisi. Yn hytrach na chyflwyno un ymyrraeth gyda therfynau clir, mae'r canfyddiadau'n dangos bod yr HCF yn rhan o ecosystem ehangach o raglenni cyllid cyfalaf a diwygiadau i'r system, gan gynnwys y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwysu, y Gronfa Gyfalaf Integreiddio Rhanbarthol, a Chynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol a'r Cynllun Grant Tai Cymdeithasol. O'r herwydd, mae'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni canlyniadau yn wasgaredig, yn amlhaenog, ac yn ddibynol iawn ar amodau cyd-destunol.

Un canfyddiad canolog ar draws yr holl dystiolaeth yw mai'r model newid ar yr ochr gyflenwi wedi'i arwain gan gyfalaf yw'r prif fodel sydd ar waith. Mae'r HCF a rhaglenni cysylltiedig yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd buddsoddi mewn seilwaith ffisegol (yn enwedig tai arbenigol ac amgylcheddau gofal integredig) yn arwain at ganlyniadau gwell ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn achos yr HCF, mae hyn ar ffurf cynyddu argaeledd tai â gofal integredig, ac mae'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu yn ymestyn y rhesymeg hon i ddatblygu canolfannau gwasanaeth wedi'u cydleoli a seilwaith system y ehangach.

Mae'r rhesymeg achosol sy'n sail i'r rhaglen yn gyson ar y cyfan: mae buddsoddiad cyfalaf yn cynyddu argaeledd a phriodoldeb amgylcheddau adeiledig, sydd yn ei dro yn galluogi cyflwyno modelau darparu gofal newydd, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau unigol gwell a llai o bwysau ar y system. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhagdybiaethau'n aml yn cael eu gwneud am fodolaeth y gadwyn achosol hon yn hytrach na bod dystiolaeth benodol ohoni, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau yn is i lawr y gadwyn megis llai o dderbyniadau i'r ysbyty neu well llesiant.

Ceir cysylltiad clos rhwng hyn a'r canfyddiad bod buddsoddiad cyfalaf yn gweithredu'n bennaf fel mecanwaith galluogi, yn hytrach na bod yn sbardun uniongyrchol i ganlyniadau. Ar draws yr holl ddogfennau a adolygwyd, gan gynnwys y Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu a chynlluniau strategol rhanbarthol, ystyrir bod cyllid cyfalaf yn creu'r amodau ar gyfer newid (drwy seilwaith, cydleoli, a sicrhau cyfatebiaeth rhwng systemau) yn hytrach na chyflawni newid yn uniongyrchol ar lefel unigolion.

Mae hyn yn cyflwyno gwahaniaeth pwysig o fewn y Ddamcaniaeth Newid: mae'r canlyniadau'n cael eu galluogi drwy ddarparu gwasanaethau, capasiti'r gweithlu, ac ymddygiad sefydliadol, sydd oll y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol rhaglenni cyfalaf. O

ganlyniad, mae effeithiolrwydd yr HCF yn dibynnu ar y graddau y mae'r amodau galluogi hyn yn cael eu trosi'n newidiadau gwirioneddol yn ymarferol.

Prif thema arall yw rôl ganolog integreiddio fel mecanwaith yn ogystal â chanlyniad bwriadedig, er bod y rôl honno'n aml yn wan o safbwynt gweithredol. Ar draws sawl dogfen, mae integreiddio yn ffactor craidd sy'n hyrwyddo gwell canlyniadau, gyda chydleoli gwasanaethau, cynllunio ar y cyd drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chyfatebiaeth rhwng systemau tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn elfennau canolog o'r rhesymeg polisi.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos bod bwlch rhwng sut y mae'r cysyniad o integreiddio wedi'i fframio a sut y caiff ei weithredu'n ymarferol. Er y gall buddsoddiad cyfalaf hwyluso cydleoli a seilwaith a rennir, nid yw ynddo'i hun yn gwarantu trefniadau gweithio integredig. Mae'r rhagdybiaeth y bydd agosrwydd ffisegol yn arwain at ddarparu gwasanaethau cydlynol yn ddolen hollbwysig yn y gadwyn achosol ond nid yw wedi'i phrofi'n ddigonol.

Mae'r adolygiad hefyd yn nodi pwysigrwydd strwythurau llywodraethu a chynllunio ar lefel y system, yn enwedig rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol o ran cydlynio buddsoddi a chyflawni. Bwriad y strwythurau hyn yw sicrhau bod cyllid cyfalaf yn cyd-fynd ag anghenion lleol, sicrhau cydlyniant strategol, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau gofal integredig. Fodd bynnag, mae hyn yn cyflwyno amrywiadau yn y ffordd y caiff rhaglenni eu gweithredu ar draws rhanbarthau, gan fod dehongliad a chapasiti lleol yn dylanwadu ar y cynlluniau a ddewisir a sut y cânt eu cyflawni. O ganlyniad, nid yw'r HCF yn gweithredu fel ymyrraeth unffurf, ond yn hytrach fel dull ariannu hyblyg y gall ei effeithiau amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y cyd-destun rhanbarthol.

Mae canfyddiad pwysig arall yn ymwneud â natur aml-lefel y newid a dargedir gan yr HCF a rhaglenni cysylltiedig. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn gyson bod ymyriadau'n gweithredu ar yr un pryd ar lefel yr unigolyn, y gwasanaeth a'r system, gyda phwyslais cryf ar drawsnewidiad ar lefel y system yn uwch i fyny'r gadwyn. Er bod y dull aml-lefel hwn yn adlewyrchu cymhlethdod yr heriau yr eir i'r afael â nhw, mae hefyd yn cymhlethu'r gwerthusiad. Mae'r llwybrau hir ac anuniongyrchol rhwng mewnbynnau (buddsoddiad cyfalaf) ac effeithiau (e.e. llai o ofal sefydliadol, gwell llesiant) yn ei gwneud yn anodd priodoli newidiadau, yn enwedig o fewn amserlenni cymharol fyr y cylchoedd cyllido.

Mae'r dystiolaeth yn amlygu ymhellach set o ragdybiaethau hollbwysig sy'n sail i effeithiolrwydd yr HCF, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â ffactorau y tu hwnt i gwmpas y rhaglen ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys digon o gapasiti yn y gweithlu i ddarparu gofal ochr

yn ochr â thai newydd, sicrhau cyfatebiaeth rhwng ffrydiau cyllid cyfalaf a refeniw, a gallu partneriaid i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol. Yn benodol, mae'r ddibyniaeth ar gyllid refeniw ategol (e.e. drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol) yn thema sy'n codi dro ar ôl tro. Heb wasanaethau digonol, efallai na fydd manteision posibl buddsoddiad cyfalaf yn cael eu gwireddu, sy'n awgrymu y dylid ystyried bod yr HCF yn un elfen o fewn system ehangach o ymyriadau yn hytrach nag ateb sy'n sefyll ar ei ben ei hun.

Yn olaf, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at rywfaint o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng amserlenni'r rhaglen a'r canlyniadau bwriadedig. Er bod rhaglenni cyfalaf fel yr HCF fel arfer yn cael eu cyflawni dros gyfnodau cymharol fyr (e.e. 4 blynedd), mae llawer o'r canlyniadau y maent yn anelu at ddylanwadu arnynt (megis llai o alw am ofal mewn ysbytai neu well cynaliadwyedd o fewn y system) yn rhai hirdymor yn eu hanfod ac yn cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau allanol. Mae hyn yn creu heriau o ran dangos effaith y rhaglen, gan y gall newidiadau gweladwy mewn canlyniadau ar lefel y system gymryd llawer mwy o amser i ymddangos ar ôl i gynlluniau cyfalaf gael eu cyflawni.


I grynhoi, awgryma'r adolygiad tystiolaeth fod yr HCF yn gweithredu o fewn tirwedd polisi cymhleth a gysylltiedig, a nodweddir gan fuddsoddiad ar yr ochr gyflenwi, uchelgais ar lefel y system, a dibyniaeth ar integreiddio fel prif fecanwaith ar gyfer newid.

Er bod rhesymeg sylfaenol y rhaglen yn glir ar lefel uchel, mae'n ddibynol ar ystod o ragdybiaethau a dibyniaethau sy'n cyflwyno ansicrwydd i'r llwybr achosol. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd datblygu Damcaniaeth Newid sy'n ystyried y ddeinameg hon yn benodol, gan gynnwys rôl alluogi buddsoddiad cyfalaf, yr amodau sy'n ofynnol ar gyfer integreiddio, a chyd-destun ehangach y system y mae'r HCF yn gweithredu ynddo.

3.5. Y Ddamcaniaeth Newid gychwynnol

Roedd datblygu Damcaniaeth Newid yr HCF yn seiliedig ar gyfuniad o ganllawiau'r rhaglen a dogfennau polisi ehangach. Drwy'r broses echdynnu, nodwyd rhesymeg glir ar gyfer y rhaglen, gan egluro sut y disgwylir i fuddsoddiad cyfalaf mewn tai a seilwaith gyfrannu at drawsnewidiad ar lefel system yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, datgelodd yr adolygiad hefyd nifer o fylchau, rhagdybiaethau ymhlyg, a meysydd o ansicrwydd o fewn y rhesymeg hon. O ganlyniad, mae'r Ddamcaniaeth Newid gychwynnol a gyflwynir yma yn ailgread o'r llwybr achosol bwriadedig yn ogystal ag asesiad beirniadol o'i gyfyngiadau.

Ffigur 3.1: Damcaniaeth Newid



Ar lefel uchel, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn dilyn llwybr dilyniannol sy'n cysylltu mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Mae'r prif fewnbynnau yn canolbwyntio ar gyllid cyfalaf sy'n cael ei gyfeirio at atebion tai sy'n cyd-fynd ag anghenion gofal, gyda chefnogaeth strwythurau llywodraethu fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a fframwaith polisi strategol ehangach. Bwriad y mewnbynnau hyn yw galluogi set o weithgareddau, gan gynnwys cyflawni cynlluniau tai arbenigol, addasu'r stoc bresennol, a chydlyn buddsoddiad a chynllunio ar draws sectorau. Yn bwysig ddigon, nid yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni ar eu pen eu hunain; yn hytrach maent yn gweithredu ochr yn ochr â rhaglenni cyfochrog (e.e. y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu) a diwygiadau i'r system ehangach sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio ecosystem ehangach o ymyriadau.

Disgwylir i'r gweithgareddau hyn gynhyrchu cyfres o allbynnau uniongyrchol, yn fwyaf nodedig cynnydd yn y cyflenwad o dai â gofal, seilwaith gwell i gefnogi darparu gwasanaethau integredig, a chydlyn gwell ar draws partneriaid. Yn eu tro, bwriedir i'r allbynnau hyn arwain at ganlyniadau megis cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw'n annibynnol mewn lleoliadau cymunedol, llif gwell yn y system, ac integreiddio gwell rhwng systemau tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r effeithiau terfynol wedi'u fframio mewn termau uchelgeisiol ar lefel y system, gan gynnwys newid tuag at fodel gofal ataliol, llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth sefydliadol, a llesiant ac ansawdd bywyd gwell.

Yn sail i'r model hwn mae set o ragdybiaethau craidd, gan gynnwys rôl ganolog tai fel un o benderfynyddion iechyd a llesiant, ymarferoldeb integreiddio ar draws sectorau, digon o weithlu a chyllid refeniw i ddarparu gofal o fewn lleoliadau tai. Mae'r Ddamcaniaeth Newid hefyd yn rhagdybio y bydd unigolion yn dewis llety yn y gymuned ac yn gallu aros ynddo, ac y gall buddsoddiad cyfalaf leihau'r galw ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn sylweddol. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn hanfodol, gan eu bod yn ffurfio'r sylfaen y mae'r rhesymeg achosol wedi'i hadeiladu arni.

Er bod y model sydd wedi'i ail-greu yn darparu naratif mewnol clir a chydlynol, nododd y dadansoddiad sawl cyfyngiad pwysig a oedd yn gofyn am fireinio'r Ddamcaniaeth Newid. Yn fwyaf nodedig, amlygodd yr adolygiad nifer o flychau yn y wybodaeth o fewn y llwybr achosol. Mewn mannau, nid yw'r mecanweithiau y disgwylir iddynt ysgogi newid wedi'u nodi'n ddigon manwl. Er enghraifft, mae'r newid o fewnbynnau a gweithgareddau (e.e. datblygu a chynllunio tai) i allbynnau a chanlyniadau (e.e. gwell annibyniaeth neu lai o arosiadau yn yr ysbyty) yn dibynnu'n fawr ar ffactorau megis capasiti'r gweithlu, integreiddio effeithiol rhwng partneriaid, a'r graddau y mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae'r mecanweithiau hyn yn ymhlyg i gan mwyaf yn hytrach nag wedi disgrifio'n benodol yn nogfennau'r rhaglen.

Mae'r mater hwn yn arbennig o amlwg mewn perthynas ag integreiddio. Er bod y Ddamcaniaeth Newid yn rhagdybio y bydd sicrhau cyfatebiaeth rhwng systemau tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain at ddarparu gwasanaethau mwy cydlynol ac effeithiol, nid yw'r prosesau penodol a ddefnyddir i gyflawni integreiddio wedi'u diffinio'n glir. Mae rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ganolog yn hyn o beth, ond mae eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar gapasiti lleol, trefniadau llywodraethu, a pharodrwydd partneriaid i gydweithio. O ganlyniad, mae integreiddio'n gweithredu fel mecanwaith allweddol yn ogystal ag ansicrwydd nodedig o fewn y model.

Mae gwaith mireinio pellach yn ymwneud â'r gydnabyddiaeth bod llawer o ganlyniadau bwriadedig y rhaglen yn dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr HCF. Mae'r Ddamcaniaeth Newid fel y'i cynlluniwyd yn wreiddiol yn awgrymu perthynas gymharol uniongyrchol rhwng buddsoddiad cyfalaf a chanlyniadau megis llai o dderbyniadau i'r ysbyty neu well llesiant. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth fod y canlyniadau hyn yn cael eu cyfryngu gan ystod o ddibyniaethau allanol, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau gofal, capasiti'r gweithlu, llwybrau mynediad, a dewisiadau unigol. Mae hyn yn cyflwyno lefel o ansicrwydd i'r model ac yn atgyfnerthu'r angen i ystyried bod yr HCF yn cyfrannu at y newidiadau a welwyd, yn hytrach na'u sbarduno.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen i'r Ddamcaniaeth Newid wahaniaethu'n fwy penodol rhwng gwahanol lefelau o ganlyniadau a'u dibyniaethau cysylltiedig (gweler adran 3.5.1). Ar lefel canlyniadau uniongyrchol, fel mwy o fynediad at dai priodol a darpariaeth leol, mae'r cysylltiad achosol â gweithgaredd HCF yn gymharol uniongyrchol, ond mae'n dal i ddibynnu ar gyflawni a chwblhau cynlluniau cyfalaf yn llwyddiannus. Ar lefel canlyniadau'n ymwneud â'r system a'r boblogaeth, gan gynnwys mwy o annibyniaeth a llai o ddibyniaeth ar ofal sefydliadol, mae'r llwybr yn mynd yn fwy cymhleth, ble mae angen systemau gofal sy'n gweithredu'n effeithiol, gweithlu sydd ar gael, ac ymgysylltu â defnyddwyr. O ran effeithiau hirdymor, fel cynaliadwyedd y system a symud tuag at ofal ataliol, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn ymestyn i ddeinameg y system ehangach, lle mae priodoli newidiadau'n dod yn fwyfwy gwasgaredig a chanlyniadau'n cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau rhyngweithiol.

3.5.1. Anghysondebau a heriau'n ymwneud â mesur canlyniadau ac effaith

Y prif anghysondebau a'r heriau sy'n ymwneud â mesur y canlyniadau a'r effeithiau a nodir yn y Ddamcaniaeth Newid yw:

Canlyniadau uniongyrchol

- mwy o bobl mewn cartrefi priodol
- mwy o fynediad at ddarpariaethau lleol
- mwy o bobl wedi'u cefnogi

Dibyniaethau: cynllunio, cyflawni a chwblhau gwaith adeiladu

Canlyniadau o ran y system a'r boblogaeth

- mwy o annibyniaeth
- llai o dderbyniadau / arosiadau yn yr ysbyty
- llai o leoliadau y tu allan i'r ardal
- llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl

Canlyniadau wedi'u dylanwadu gan: ddarpariaethau gofal, capasiti'r gweithlu, llwybrau mynediad, dewis / defnydd defnyddwyr

Effaith hirdymor ar y system

- system gofal gynaliadwy
- model sy'n canolbwyntio ar atal
- gwell llesiant ac ansawdd bywyd

Heriau priodoli: newidiadau amlffactor i'r system, cyfnod amser hir (oedi y tu hwnt i ddiwedd y rhaglen)

Heriau mesur: dangosyddion anuniongyrchol, angen gwaith modelu / dadansoddi cyfraniad.

Mae'r gwahaniaethau hyn hefyd yn amlygu'r heriau'n ymwneud â mesur canlyniadau ac effeithiau o fewn y Ddamcaniaeth Newid. Er y gellir mesur allbynnau a rhai canlyniadau uniongyrchol yn gymharol syml (e.e. nifer yr unedau tai a ddarparwyd), mae angen mathau mwy cymhleth o dystiolaeth ar gyfer canlyniadau tymor hwy, gan gynnwys cysylltu data ar draws y system ac, mewn rhai achosion, modelu neu ddadansoddi cyfraniadau. Mae

priodoli effeithiau hirdymor i'r HCF yn unig yn arbennig o broblematig, o ystyried dylanwad rhaglenni cyfochrog, diwygiadau polisi ehangach, ac amodau economaidd-gymdeithasol allanol.

Yn olaf, mae mireinio'r Ddamcaniaeth Newid yn pwysleisio pwysigrwydd deall yr HCF fel rhan o system o ymyriadau ehangach a chydgyssylltiedig. Nid yw'r rhaglen yn gweithredu ar ei phen ei hun; yn hytrach mae'n rhyngweithio â ffrydiau cyllido eraill (e.e. y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso), fframweithiau strategol (e.e. y Rhaglen Lywodraethu), a phrosesau cynllunio lleol. Yn ogystal â hynny, mae ei heffeithiolrwydd yn cael ei gyfyngu gan ffactorau strwythurol megis y cyflenwad tai, capasiti'r farchnad, a galw demograffig. Mae'r dylanwadau cyfochrog hyn yn rhedeg ochr yn ochr â'r Ddamcaniaeth Newid ffurfiol ac yn dylanwadu ar ei gweithrediad a'i chanlyniadau.

I grynhoi, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn cadw strwythur a bwriad craidd rhesymeg wreiddiol y rhaglen ond yn cyflwyno dealltwriaeth fwy beirniadol a chynnil o sut y disgwylir i newid ddigwydd. Mae'n egluro'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r model, yn nodi dibyniaethau allweddol a meysydd o ansicrwydd, ac yn gwahaniaethu rhwng lefelau canlyniadau a'u llwybrau achosol cysylltiedig. Wrth wneud hynny, mae'n darparu fframwaith mwy realistig sy'n ddadansoddol gadarn ar gyfer deall rôl yr HCF o fewn system ofal gymhleth ac esblygol. Yn y dyfodol, byddai Damcaniaeth Newid ar gyfer y math yma o raglen yn elwa o fwy o eglurder ynghylch y mecanweithiau y disgwylir iddynt arwain at gyflawni newid a'r metrigau a ddefnyddir i asesu cynnydd a llwyddiant.

3.6. Sylwadau i gloi

Mae'r bennod hon wedi amlinellu'r cyd-destun polisi, dyluniad y rhaglen, a'r fframwaith damcaniaethol sy'n sail i'r HCF, gan osod y gronfa o fewn system ddiwygio ehangach sy'n canolbwyntio ar integreiddio, gwaith atal, a gofal cymunedol. Wrth wneud hynny, mae wedi dangos gwerth y Ddamcaniaeth Newid fel offeryn ar gyfer mynegi sut y disgwylir i fuddsoddiad cyfalaf mewn tai gyfrannu at ganlyniadau gwell ar draws y systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r dadansoddiad hefyd wedi amlygu cyfyngiadau pwysig yn rhesymeg sylfaenol y rhaglen, yn enwedig mewn perthynas â rhagdybiaethau ymhlyg, dibyniaeth ar ffactorau'n ymwneud â'r system ehangach, a phresenoldeb llwybrau achosol sydd heb eu nodi'n ddigonol. Drwy wneud yr elfennau hyn yn eglur, mae'r Ddamcaniaeth Newid ddiwygiedig yn darparu disgrifiad mwy realistig a dadansoddol gadarn o sut y disgwylir i newid ddigwydd, gan gydnabod rôl alluogi'r HCF a'r cyfyngiadau y mae'n gweithredu o'u mewn.

At ei gilydd, mae'r Ddamcaniaeth Newid ddiwygiedig yn cynnig fframwaith cydlynol ar gyfer asesu effeithiolrwydd y rhaglen, yn ogystal â chefnogi dehongliad mwy beirniadol a chynnil o'r canfyddiadau yng nghyfnodau dilynol y gwerthusiad.

4. Adolygiad o ddata monitro'r rhaglen

Mae'r wybodaeth fonitro a rannwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn rhoi trosolwg o ddyraniadau cyfalaf a gwariant y Gronfa Tai â Gofal (HCF) gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2022 i 2023 a 2025 i 2026, ynghyd â gwybodaeth gronnus am gynlluniau a ariennir o dan Amcan 1, Amcan 2 ac Amcan 3.

Fel gydag unrhyw ddata monitro, mae angen rhywfaint o ofal wrth ei ddehongli. Mae'r tablau'n ddefnyddiol ar gyfer disgrifio maint a phatrwm y buddsoddiad a'r ddarpariaeth, ond nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn darparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae'r gwerthusiad ehangach yn ceisio eu harchwilio, megis a yw pobl yn gallu byw'n annibynnol am gyfnod hwy, a yw'r lleoliadau'n nes at adref, neu'r graddau y mae'r HCF wedi newid modelau gofal.

Mae data'r wybodaeth fonitro yn cyflwyno gwybodaeth ariannol flynyddol a chofnodion ar lefel cynllun ar wahanol seiliau, gan gynnwys gwahaniaethau yn amseriad dyfarniadau, hawliadau a thaliadau, a chyllido fesul cam. O'r herwydd, nid yw bob amser yn bosibl cymharu ffigurau o wahanol rannau o'r data monitro yn uniongyrchol.

Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad yn y bennod hon yn seiliedig ar y data monitro ar gyfer dyraniadau Amcanion 1 a 2 yr HCF. Ni ellir dadansoddi cyllid Amcan 3 yn yr un ffordd, gan fod y wybodaeth fonitro yn nodi deiliaid y grantiau yn hytrach na sefydliadau cyflawni, ac felly nid yw'n darparu sail ddigon cadarn ar gyfer ei chynnwys.

4.1. Dyraniadau cyfalaf a gwariant

Mae Tabl 4.1 yn dangos bod dyraniadau'r HCF wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2022 i 2023 a 2024 i 2025, cyn lleihau yn 2025 i 2026. Cynyddodd cyfanswm y cyfalaf a ddyfarnwyd ar draws y 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o £31.4 miliwn yn 2022 i 2023 i £43.1 miliwn yn 2023 i 2024, ac yna i £55.9 miliwn yn 2024 i 2025, cyn gostwng yn ôl i £44.4 miliwn yn 2025 i 2026.

At ei gilydd, mae'r data monitro yn awgrymu bod y rhaglen wedi gallu defnyddio a gwario cyllid cyfalaf yn effeithiol yn ystod ei 3 blynedd gyntaf a bod 95% neu fwy o gyfanswm y grant a ddyfarnwyd wedi'i wario, cyn gostwng i 73% yn 2025 i 2026. Mae'r gyfradd gwariant is yn 2025 i 2026 yn awgrymu perfformiad gwannach o ran gwariant yn ystod y flwyddyn ym mlwyddyn olaf y rhaglen ond gallai hyn adlewyrchu amseriad, newidiadau i'r broses dalu a ffactorau adrodd yn ogystal â phroblemau cyflawni.

Tabl 4.1: Dyroniadau cyfalaf a gwariant yr HCF yn ôl blwyddyn

Blwyddyn	Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd	Cyfanswm y gwariant	Cyfradd gwariant
2022 i 2023	£31,444,251	£30,698,697	98%
2023 i 2024	£43,125,676	£41,145,394	95%
2024 i 2025	£55,861,072	£53,327,094	95%
2025 i 2026	£44,440,680	£32,485,309	73%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

4.2. Amrywiad rhanbarthol yn y perfformiad ar wariant

Nid yw'r gwariant cyfanredol yn Nhabl 4.1 yn dangos yr amrywiad ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fel y gwelir yn Nhabl 4.2, dros y cyfnod o 4 blynedd, cofnodwyd y cyfanswm mwyaf o ddyroniadau yng Ngwent, Gogledd Cymru a Chaerdydd a'r Fro. Gan edrych ar draws y 4 blynedd gyda'i gilydd, roedd y cyfraddau gwariant cyffredinol ar eu huchaf ym Mhowys, Caerdydd a'r Fro a Gogledd Cymru, a chofnodwyd cyfraddau gwariant cyffredinol is yng Ngorllewin Cymru, Gwent a Chwm Taf Morgannwg. Mae'r gwahaniaethau hyn yn dangos amrywiad o ran pa mor gyflym y llwyddodd y rhanbarthau i drosi dyroniadau yn wariant dros oes y rhaglen.

Tabl 4.2: Dyroniad cyfalaf, gwariant a chyfradd gwariant yr HCF yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y cyfnod 4 blynedd 2022 i 2026

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd	Cyfanswm y gwariant	Cyfradd gwariant
Gwent	£39,997,333	£33,746,733	84%
Gogledd Cymru	£34,728,190	£33,245,879	96%
Caerdydd a'r Fro	£32,899,854	£31,714,719	96%
Cwm Taf Morgannwg	£25,336,774	£21,716,566	86%
Gorllewin Cymru	£19,019,346	£16,068,642	84%

Gorllewin Morgannwg	£13,445,623	£11,999,698	89%
Powys	£9,444,559	£9,164,257	97%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Mae Tabl 4.3 yn dangos amrywiad yng nghyfran dyfarniadau 2025 i 2026 a gofnodwyd fel rhai a wariwyd yn ystod y flwyddyn. Yng Ngogledd Cymru a Chaerdydd a'r Fro y gwelwyd y cyfraddau gwariant uchaf, ac yng Nghwm Taf Morgannwg a Gwent y gwelwyd y cyfraddau isaf. Fodd bynnag, ni ddylid dehongli'r gwahaniaethau hyn fel amrywiad mewn perfformiad cyflawni yn unig. Roedd newid i'r trefniadau adrodd ar reolaeth ariannol yn golygu bod gwariant yn cael ei gofnodi pan oedd yn cael ei wario, yn hytrach na phan gafodd y cyllid ei ddyfarnu. Arweiniodd hyn at oedi, gyda rhywfaint o'r gwariant a oedd yn gysylltiedig â dyfarniadau 2025 i 2026 yn cael ei gofnodi yn 2026 i 2027.

Tabl 4.3: Cyfanswm gwariant HCF yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2025 i 2026

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Grant a ddyfarnwyd yn 2025 i 2026	Gwariant yn 2025 i 2026	Cyfradd gwariant 2025 i 2026
Gogledd Cymru	£8,659,833	£7,933,586	92%
Caerdydd a'r Fro	£8,412,664	£7,591,447	90%
Gorllewin Morgannwg	£5,692,387	£4,342,422	76%
Gorllewin Cymru	£6,579,257	£4,392,782	67%
Powys	£256,000	£160,898	63%
Gwent	£9,067,695	£5,204,464	57%
Cwm Taf Morgannwg	£5,772,845	£2,859,710	50%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

4.3. Sut y cyflawnwyd amcanion y rhaglen

Dros y cyfnod cyflawni 4 blynedd, dyfarnwyd £68.4 miliwn ar gyfer cynlluniau Amcan 1, £81.5 miliwn ar gyfer cynlluniau Amcan 2 a £50.8 miliwn ar gyfer prosiectau Amcan 3. Mae hyn yn cyfateb i tua 34% o gyfanswm y dyfarniadau o dan Amcan 1, 41% o dan Amcan 2 a 25% o dan Amcan 3. Roedd canllawiau gwreiddiol yr HCF yn nodi y dylai Amcan 1 gyfrif am o leiaf 50% o'r gronfa, y dylai Amcan 2 gyfrif am o leiaf 20%, ac y dylai Amcan 3 gyfrif am ddim mwy na 10% o ddyraniad nominal rhanbarth. Esblygodd y trefniadau cyllido wedi hynny, ac roedd dyraniad ychwanegol o 5% ar gael ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a rhagor o gyllid Amcan 3 ar gael ar ddiwedd y flwyddyn. Felly mae dosbarthiad terfynol y dyfarniadau yn adlewyrchu'r paramedrau cyllido gwreiddiol a'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd dros y cyfnod cyflawni.

Mae Tabl 4.4 yn dangos bod yr HCF wedi cefnogi swm sylweddol o weithgarwch yn ymwneud â chynlluniau o dan Amcan 1 ac Amcan 2, gyda chyfanswm o 193 o gynlluniau wedi'u hariannu. Mae'r data'n dangos bod Amcan 1 yn gysylltiedig â chynlluniau tai ar raddfa fwy gyda chyfartaledd o 5 uned llety a 10 gwely fesul cynllun, tra bod Amcan 2 yn cynnwys nifer fwy o gynlluniau llai o faint, a oedd yn aml yn fwy arbenigol, gyda chyfartaledd o dai uned llety a pump gwely fesul cynllun.

Tabl 4.4: Allbynnau ar gyfer y cynlluniau Amcan 1 a 2 a ariannwyd

Amcan	Nifer y cynlluniau a ariannwyd	Nifer yr unedau llety	Nifer y gwelyau
1	90	462	931
2	103	201	491
Cyfanswm	193	663	1,422

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Adroddir ar wariant ar draws Amcan 3 yn erbyn dau faes gweithgarwch eang: prosiectau bach a Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Prosiectau bach oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o ddyraniadau Amcan 3, sef ychydig o dan ddwy ran o dair o'r dyraniad cyllid (64%) gyda'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cyfrif am 36%.

Tabl 4.5: Proffil ariannol Amcan 3

Elfen Amcan 3	Grant a ddyfarnwyd	Gwariant
Prosiectau bach	£32,474,086	£22,219,628
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	£18,337,150	£12,075,423
Cyfanswm	£50,811,236	£34,295,051

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

4.4. Dosbarthiad daearyddol

Mae Tabl 4.6 yn dangos bod yr HCF wedi cefnogi cynlluniau ar draws ardal ddaearyddol eang. Mae'r tabl yn cofnodi 193 o gynlluniau mewn 183 o safleoedd ar draws y 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o dan Amcanion 1 a 2, gyda'r nifer mwyaf yng Ngwent, ac yna Gogledd Cymru a Gorllewin Cymru. Dengys y data fod rhai rhanbarthau wedi cefnogi nifer mawr o gynlluniau llai o faint tra bod eraill wedi canolbwyntio eu cyllid ar nifer llai o ddatblygiadau mwy o faint.

Tabl 4.6: Cynlluniau Amcan 1 a 2 yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Nifer y safleoedd	Cynlluniau Amcan 1 a 2	Grant Amcan 1 a 2 a ddyfarnwyd	Unedau llety Amcan 1 a 2	Lleoedd gwely Amcan 1 a 2
Gwent	47	49	£35,847,028	110	264
Gogledd Cymru	36	38	£30,145,355	101	243
Caerdydd a'r Fro	16	18	£27,138,137	152	203
Cwm Taf Morgannwg	24	24	£21,004,999	115	274
Gorllewin Cymru	30	30	£15,931,600	41	131
Powys	10	10	£10,632,279	94	221
Gorllewin Morgannwg	20	24	£9,241,153	50	86
Cyfanswm	183	193	£149,940,551	663	1,422

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Mae Tabl 4.7 yn dangos rhywfaint o amrywiad yng nghyfradd y dyraniadau Amcan 3 a gafodd eu trosi'n wariant. Ymhlith y rhanbarthau a ddangosir, yng Ngorllewin Morgannwg y cofnodwyd y gyfradd gwariant uchaf, sef 81%, ac yna Caerdydd a'r Fro sef 80%, sy'n awgrymu perfformiad cyflawni cymharol gryfach yn yr ardaloedd hyn. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, gwelwyd y gyfradd gwariant isaf yng Ngwent, sef 49%, a chofnodwyd cyfradd gymharol isel o 58% yng Nghwm Taf Morgannwg hefyd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod pob rhanbarth wedi gwario ei dyraniadau llawn.

Tabl 4.7: Dyroniadau a gwariant Amcan 3 yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Cyllid Amcan 3 a ddyfarnwyd	Gwariant Amcan 3	Cyfradd gwariant Amcan 3
Gogledd Cymru	£11,977,650	£9,161,653	76%
Gwent	£9,775,600	£4,798,661	49%
Cwm Taf Morgannwg	£7,659,886	£4,454,323	58%
Gorllewin Cymru	£6,723,150	£4,306,463	64%
Caerdydd a'r Fro	£6,508.350	£5,218,350	80%
Gorllewin Morgannwg	£6,652,400	£5,381,703	81%
Powys	£1,514,200	£973,898	64%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Mae Tabl 4.7 yn dangos dosbarthiad dyfarniadau Amcan 3 ar draws y 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y cyfnod o pedwar blynedd. Gogledd Cymru a gafodd y dyfarniad cyffredinol mwyaf, ac yna Gwent a Chwm Taf Morgannwg, tra mai Powys a gafodd y dyfarniad lleiaf.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Cyllid Amcan 3 a ddyfarnwyd
Gogledd Cymru	£11,977,650
Gwent	£9,775,600
Cwm Taf Morgannwg	£7,659,886
Gorllewin Cymru	£6,723,150
Caerdydd a'r Fro	£6,508.350

Gorllewin Morgannwg

£6,652,400

Powys

£1,514,200

Mae dadansoddiad o'r ddwy flynedd yr oedd data cyflawn ar ddyfarniadau a gwariant ar gael ar eu cyfer, sef 2023-2024 a 2024-2025, yn dangos bod £20.4 miliwn wedi'i ddyfarnu o dan Amcan 3 a bod £19.9 miliwn wedi'i gofnodi fel gwariant, sy'n cynrychioli cyfradd gwariant gyffredinol o 98%.

4.5. Math o gynllun

Llety Preswyl i Blant yw'r math mwyaf o gynllun o ran cyfanswm y dyfarniadau ar draws Amcanion 1 a 2, sef tua £59.4 miliwn ar draws 76 o gynlluniau, a ddarparodd 95 o unedau a 277 o welyau. Y dyfarniad cyfartalog fesul cynllun yw tua £722,000.

Byw â Chymorth yw'r ail gynllun mwyaf o ran cyfanswm gwerth y dyfarniadau ar draws Amcanion 1 a 2, gyda thua £52.0 miliwn wedi'i ddyfarnu i 83 o gynlluniau, gan greu 220 o unedau a 476 o welyau. Mae'r dyfarniad cyfartalog fesul cynllun tua £627,000, sy'n awgrymu nifer mawr o gynlluniau canolig eu maint yn hytrach na nifer bach o ddatblygiadau blaenllaw, mawr iawn.

Mae Gofal Ychwanegol yn cyfrif am tua £36.6 miliwn ar draws 12 cynllun o dan Amcanion 1 a 2, ond y math hwn o gynllun sy'n darparu'r nifer mwyaf o lety o ran gwelyau ac unedau, sef 301 o unedau a 603 o welyau. Y dyfarniad cyfartalog fesul cynllun yw tua £3.1 miliwn, sy'n swm llawer uwch na'r mathau eraill o gynlluniau, sy'n dangos bod cynlluniau Gofal Ychwanegol yn tueddu i fod yn fwy o ran maint, yn fwy crynodedig ac yn gofyn am fwy o gyfalaf.

Mae'r cyfanswm ar gyfer y mathau o gynlluniau sy'n weddill yn llawer llai ar draws Amcanion 1 a 2:

- mae Gofal Canolraddol yn cyfrif am tua £3.3 miliwn ar draws pump cynllun
- mae categorïau 'Eraill' yn cyfrif am tua £1.7 miliwn ar draws saith cynllun
- mae Llety Trosiannol, Tai Gwarchod, a chynlluniau Byw'n Annibynnol ill dau yn cynrychioli gwerthoedd cymharol fach a niferoedd bach iawn o gynlluniau.

Mae yna hefyd rai gwahaniaethau rhanbarthol sy'n werth eu nodi. Mae Caerdydd a'r Fro a Phowys yn cael eu cysylltu'n bennaf â chynlluniau Gofal Ychwanegol, tra bod Cwm Taf

Morgannwg, Gwent a Gogledd Cymru yn cael eu cysylltu'n bennaf â chynlluniau Preswyl i Blant. Mae Gorllewin Cymru a Gorllewin Morgannwg yn cael eu cysylltu'n bennaf â chynlluniau Byw â Chymorth.

4.6. Grŵp blaenoriaeth

Mae'r wybodaeth fonitro yn cofnodi cynlluniau a ariannwyd, unedau llety a lleoedd gwely fel mesurau ar wahân. Gall un cynllun ddarparu nifer o unedau llety, a gall uned llety gynnwys mwy nag un gwely. Er enghraifft, caiff un datblygiad Gofal Ychwanegol ei gofnodi fel cynllun unigol ond gall ddarparu degau o fflatiau a gwelyau.

Tabl 4.8 Dyfarniadau'r HCF yn ôl grŵp blaenoriaeth ar draws Amcanion 1 a 2

Grŵp blaenoriaeth	Y cyllid a ddyfarnwyd	Nifer y cynlluniau a ariannwyd	Cyfanswm nifer yr unedau llety a gofnodwyd	Cyfanswm nifer y gwelyau a gofnodwyd
Plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion cymhleth	£62,754,030	93	132	341
Pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia	£43,728,949	21	326	700
Pobl ag anableddau dysgu, pobl niwrowahanol a phobl ag amariadau niwroddatblygiadol	£36,252,412	64	164	314
Pobl ag anghenion iechyd emosiynol ac anghenion llesiant meddyliol	£6,989,159	8	40	62
Gofalwyr di-dâl	£216,000	1	Heb ei nodi	Heb ei nodi

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Mae yna rai gwahaniaethau nodedig fesul rhanbarth hefyd. Mae Caerdydd a'r Fro a Phowys yn arwain ar gynlluniau cyllido ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia, ac yng Nghwm Taf, Gwent, Gogledd Cymru a Gorllewin Morgannwg ceir y crynodiad mwyaf o gyllid ar gyfer cynlluniau plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion cymhleth. Yng Ngorllewin

Cymru, dyfarnwyd y gyfran fwyaf o gyllid ar gyfer cynlluniau i bobl ag anableddau dysgu, pobl niwrowahanol a chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn gyson â rhanbarthau'n defnyddio'r gronfa i ymateb i flaenoriaethau lleol gwahanol yn ymwneud â llety a gofal.

4.7. Proffil y sefydliadau cyflawni

Mae Tabl 4.8 yn dangos bod cynlluniau Amcan 1 wedi'u cyflawni'n bennaf drwy landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (75%), a bod cynlluniau Amcan 2 wedi'u harwain yn bennaf gan awdurdodau lleol (73%). Mae hyn yn gyson â chynllun bwriadedig y gronfa, ble mae Amcan 1 yn cyd-fynd yn agosach â datblygiadau tai hirdymor a ble ceir cysylltiad agosach rhwng Amcan 2 a gofal canolraddol a seilwaith gwasanaethau lleol. Dim ond nifer bach o gynlluniau sydd wedi cael eu cyflawni'n uniongyrchol gan y trydydd sector neu gan fyrdau iechyd yn y naill amcan neu'r llall.

Tabl 4.8: Proffil sefydliadau cyflawni'r cynllun a ariannwyd yn ôl amcan

Amcan	Awdurdod lleol	Landlord cymdeithasol cofrestredig	Y trydydd sector	Bwrdd iechyd
Amcan 1	19	68	1	2
Amcan 2	75	21	5	2

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Cynhaliwyd haen bellach o ddadansoddiad ^[troednodyn 3] i archwilio pa sefydliadau a gyflawnodd gynlluniau HCF yn eu cyfanrwydd ac mae'r data i'w gweld yn Nhabl 4.9. Awdurdodau lleol oedd yn cynrychioli'r gyfran gyfanredol fwyaf o gyllid HCF, sef £87.4 miliwn, ac yna Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sef £63.1 miliwn a byrdau iechyd, sef £51.7 miliwn. Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn cynrychioli cyfran lawer llai, sef £2.7

³ Defnyddiwyd data o'r tab Rheoli Colyn i ystyried pa sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid HCF a thrwy faint o brosiectau. Roedd angen ymgymryd â phroses glanhau data sylweddol ar gyfer y dadansoddiad hwn oherwydd bod nodiadau'r llyfr gwaith yn dangos bod llinellau amrywiad yn diweddarau cofnod gwreiddiol y cynllun, tra bod ail a thrydydd dyfarniad yn cael eu cofnodi ar wahân fel llinellau Amcan X ac ni ddylid eu cyfrif fel prosiectau a ariennir ar wahân. Ni chafodd cynlluniau drafft (amcan D) eu cynnwys. Cafodd llinellau-A, a ddefnyddir lle mae caffael ac adeiladu yn digwydd yn yr un flwyddyn, eu cadw ar gyfer cyfansymiau ariannol ond cawsant eu trin yn ofalus wrth gyfrif y prosiectau fel nad oedd prosiectau a oedd wedi'u cwblhau dros sawl cam yn chwyddo nifer y cynlluniau.

miliwn. Yn gyffredinol, mae hyn yn cefnogi'r naratif ehangach bod cyflawni'r HCF wedi dibynnu'n bennaf ar system gymysg o seilwaith gwasanaethau dan arweiniad cynghorau a datblygiadau llety dan arweiniad cymdeithasau tai, a bod byrddau iechyd wedi chwarae rhan arbennig o bwysig o ran cyfeirio cyllid drwy Amcan 3 ar gyfer prosiectau bach a dyraniadau'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Tabl 4.9: Cyllid HCF yn ôl sector cyflawni (Amcanion 1, 2 a 3)

Sector cyflawni	Cynlluniau a ariannwyd	Cyfanswm y dyfarniad
Awdurdod lleol	104	£87,423,459
Landlord cymdeithasol cofrestredig	84	£63,063,141
Bwrdd iechyd	80	£51,746,001
Y trydydd sector	6	£2,733,557

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

Pan gyfyngir y dadansoddiad i gronfeydd a ddyfarnwyd ar gyfer Amcanion 1 a 2, roedd awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyfrif am gyfran llawer uwch o'r cyllid a ddyrannwyd. Ymhlith awdurdodau lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Caerdydd a dderbyniodd y cyfanswm mwyaf o ddyraniadau, ac ymhlith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y sefydliadau mwyaf amlwg yw Cymdeithas Tai First Choice, Cymdeithas Tai Wales and West a Grŵp Codi. ^[troednodyn 4] Mae hyn yn awgrymu bod cyflawni Amcanion 1 a 2 yn dibynnu ar gomisiynu a gwaith datblygu uniongyrchol dan arweiniad cynghorau, a chyflawni cynlluniau llety mawr dan arweiniad cymdeithasau tai.

Mae dadansoddiad pellach o'r data yn awgrymu bod cyfran sylweddol o gyllid HCF o dan Amcanion 1 a 2 wedi'i ddyrannu i nifer gymharol fach o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cymdeithas Tai First Choice oedd â'r cwmpas ehangaf o brosiectau a gyfeiriwyd at y cynllun ledled Cymru, gyda thuag £16.9 miliwn o gyllid HCF ar draws 38 o gynlluniau a ariannwyd mewn 7 ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dyrannwyd tua

⁴ Crëwyd Grŵp Codi drwy uno Linc Cymru a Pobl, ac fe wnaethant uno'n ffurfiol yn 2024. Mabwysiadwyd yr enw Grŵp Codi o 1 Ionawr 2026 ymlaen. Felly mae'r dyfarniadau a gofnodwyd o dan Linc Cymru a Pobl yn y wybodaeth fonitro wedi'u cyfuno ar gyfer y dadansoddiad hwn.

£16.1 miliwn i Grŵp Codi ar gyfer 13 o gynlluniau a ariannwyd yng Nghwm Taf Morgannwg, Gwent, Powys a Gorllewin Morgannwg. Dyrannwyd cyfanswm mawr tebyg, sef tuag £15.6 miliwn, i Gymdeithas Tai Wales and West, ond gwariwyd hyn ar ddim ond tri chynllun ar draws Caerdydd a'r Fro a Phowys. Gwnaed dyraniadau llai ond nodedig i Gymdeithas Tai United Welsh (tua £3.6 miliwn ar gyfer pump cynllun, pob un yng Ngwent) a Tai Melin (tuag £1.7 miliwn ar gyfer 4 cynllun yng Ngwent a Phowys).

Mae'n nodedig bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cael mynediad at y cyllid mewn ffyrdd gwahanol. Ymddengys fod rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cael mynediad at gyllid HCF drwy nifer cymharol fawr o gynlluniau, llawer ohonynt yn llai o safbwynt ariannol ac wedi'u gwasgaru ar draws sawl rhan o Gymru. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae'n ymddangos bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill wedi ymwneud â nifer llawer llai o ddatblygiadau cyfalaf mawr. Mae hyn yn awgrymu bod mynediad at yr HCF nid yn unig wedi amrywio o ran cyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan sefydliadau, ond hefyd o ran y math o gynlluniau a gafodd eu datblygu.

Ar sail y data ar gynlluniau Amcan 1 ac Amcan 2 a ariannwyd, ymddengys mai ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent sydd wedi galluogi'r ddarpariaeth ehangaf o gynlluniau a ariannwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ble y gwelwyd y cyfanswm gwerth uchaf o ddyfarniadau'n gysylltiedig â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r nifer mwyaf o ddarparwyr a oedd yn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gwelir lefelau uchel o gyllid sy'n gysylltiedig â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghaerdydd a'r Fro a Phowys hefyd, er ei bod yn ymddangos bod hyn i'w weld yn canolbwyntio ar nifer lai o gynlluniau mawr iawn, yn ymwneud â Chymdeithas Tai Wales and West yn arbennig. Mae Cwm Taf Morgannwg hefyd yn sefyll allan, yn bennaf oherwydd maint y cyllid sy'n gysylltiedig â chynlluniau wedi'u harwain gan Grŵp Codi.

Mae'n bwysig nodi na ellir ymestyn y dadansoddiad hwn yn yr un modd i Amcan 3 gan fod llawer o'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag Amcan 3 wedi'i gofnodi fel prosiectau bach a dyraniadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl byrddau iechyd neu awdurdodau lleol sy'n cael eu dosbarthu i sefydliadau cyflawni eraill. Mae hyn yn golygu y gellid dyrannu cyfran sylweddol o gyllid Amcan 3 hefyd i amrywiol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau cyflawni eraill yn y trydydd sector.

4.8. Ffynhonnell gyllido

Mae dadansoddiad o gynlluniau Amcanion 1 a 2 yn awgrymu bod yr HCF wedi gweithredu fel ffynhonnell gyfalaf annibynnol yn ogystal â rhan o becynnau cyllido cymysg ehangach

sy'n cynnwys, yn benodol, y [Gronfa Gofal Integredig](#), sy'n gronfa etifeddol y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a'r Grant Tai Cymdeithasol fel y gwelir yn Nhabl 4.10. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau'n ymddangos fel HCF yn unig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod lleiafrif sylweddol o gynlluniau'n rhan o becynnau cyllido ehangach, gan gynnwys 28 o gynlluniau a gafodd gyllid HCF a chyllid etifeddol o'r Gronfa Gofal Integredig, 9 cynllun a gafodd gyllid HCF a'r Grant Tai Cymdeithasol, a pedwar cynllun lle mae'n ymddangos bod yr HCF, y Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Integredig wedi'u cyfuno.

Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gynlluniau i bob golwg yn dibynnu'n bennaf ar HCF fel y brif ffynhonnell gyfalaf adnabyddadwy, ond bod set lai o gynlluniau strategol bwysig, o werth uwch wedi'u hariannu drwy becynnau cyllido mwy cymhleth. Yn benodol, mae'r cynlluniau mwyaf a ariennir ar y cyd yn gysylltiedig â'r maes Gofal Ychwanegol a datblygiadau llety mawr eraill yn bennaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys Gofal Ychwanegol Penarth yng Nghaerdydd a'r Fro a Gofal Ychwanegol Aberhonddu ym Mhowys, sydd ill dau wedi cael eu cyflawni gan Gymdeithas Tai Wales and West, gan ddefnyddio cyllid HCF, y Grant Tai Cymdeithasol a chyllid etifeddol o'r Gronfa Gofal Integredig. Mae Gofal Ychwanegol Porth yng Nghwm Taf Morgannwg a Gofal Ychwanegol Aberpennar, a ddarperir gan Grŵp Codi, hefyd yn dangos defnydd o gyllid ar y cyd sy'n cynnwys HCF, y Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Integredig. Defnyddiodd Croes Atti yng Ngogledd Cymru gyllid HCF, cyllid etifeddol y Gronfa Gofal Integredig ynghyd â chyllid y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a chyllid masnachol ar gyfer cynllun a gyflawnwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

Fodd bynnag, dylid trin y dadansoddiad o'r data yn ofalus, oherwydd mae presenoldeb cyllid o'r Grant Tai Cymdeithasol, y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso neu gronfeydd eraill yn aml yn cael ei grybwyll yn y disgrifiad o'r cynllun yn hytrach na chael ei gofnodi'n gyson mewn maes ariannol pwrpasol. Serch hynny, mae'r patrymau a nodwyd yn dangos bod cyllido ar y cyd yn nodwedd ystyrlon o bortffolio'r HCF, yn enwedig ar gyfer datblygiadau llety mwy o faint.

Tabl 4.10: Ffynhonnell gyllido ar gyfer cynlluniau Amcan 1 ac Amcan 2

	Nifer y cynlluniau	Dyfarniad HCF
HCF yn unig	146	£95.9m
HCF a'r Gronfa Gofal Integredig etifeddol	28	£21.4m
HCF a'r Grant Tai Cymdeithasol	9	£13.5m
HCF, y Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Integredig etifeddol	4	£19.1m

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro'r HCF

5. Canfyddiadau o'r cyfweiliadau cwmpasu

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r prif ganfyddiadau o'r cyfweiliadau cwmpasu a gynhaliwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac un Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal â phapur ysgrifenedig a dderbyniwyd ar ran y sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

5.1. Rhesymeg

Dangosodd y cyfweiliadau cwmpasu fod y cyfranwyr yn deall nodau ac amcanion yr HCF yn dda. Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod diben yr HCF wedi'i ddiffinio'n glir a bod y gronfa'n "gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun".

Nododd y rhai a gyfwelwyd ar sawl amcan craidd i'r HCF sy'n cyd-fynd â'r rhai a nodir yn y canllawiau:

- cynyddu'r cyflenwad tai i bobl ag anghenion gofal a chymorth na allant fyw mewn tai cyffredinol, oherwydd y gofyniad am ddarpariaeth arbenigol neu ddarpariaeth wedi'i haddasu
- gwella ansawdd tai â chymorth, gyda'r disgwyliad y bydd llety mwy addas yn gwella iechyd a llesiant ac yn lleihau'r angen am ymyriadau pellach
- darparu ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghenion tai grwpiau poblogaeth sy'n flaenoriaeth
- cefnogi buddsoddiad strategol mewn meysydd o angen, fel y nodir mewn Cynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol

Ystyriwyd bod yr angen am HCF yn deillio o sawl ffactor, gan gynnwys:

- prinder llety addas o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau blaenoriaeth
- anghenion cynyddol gymhleth ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth
- prinder llety addas yn agos at gartrefi a chymunedau unigolion
- dibyniaeth ar leoliadau drud y tu allan i'r sir, yn enwedig i blant a phobl ifanc
- dull gweithredu tameidiog nad yw'n ddigon strategol ar draws y meysydd tai, gofal, iechyd a'r trydydd sector

Pwysleisiodd cynrychiolwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bwysigrwydd eu Cynlluniau Cyfalaf Strategol wrth fynegi angen a gosod blaenoriaethau ar gyfer yr HCF ar lefel

ranbarthol. Ystyriwyd bod mabwysiadu'r cynlluniau hyn yn gam cadarnhaol, gan y credwyd eu bod wedi helpu i ysgogi llif cryfach o geisiadau am gynlluniau a oedd yn cyd-fynd ag amcanion yr HCF.

O ran cydweddiad â pholisi a chyfraniad, roedd y rhai a gyfwelwyd yn credu bod cyfatebiaeth gref rhwng uchelgeisiau polisi a fframweithiau deddfwriaethol yr HCF. Yn benodol, nodwyd cyfatebiaeth gref â Cymru Iachach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac egwyddorion Marmot, yn enwedig y pwyslais ar atal a lleihau anghydraddoldebau ar draws y polisïau a'r deddfwriaethau hyn.

Cyfeiriwyd yn aml hefyd at y [Rhaglen Lywodraethu flaenorol ar gyfer 2021 i 2026](#). Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod cyfatebiaeth dda rhwng yr HCF ac ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu adeg ei chyhoeddi, a oedd yn atgyfnerthu sawl elfen graidd o'r gronfa. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer atebion tai arloesol a darparu llety priodol ar gyfer grwpiau blaenoriaeth. Roedd y Rhaglen Lywodraethu hefyd wedi arwain at fwy o ffocws ar flaenoriaethau penodol, yn enwedig dileu elw mewn darpariaeth gofal preswyl i blant a hyrwyddo cartrefi carbon isel ar gyfer tai rhent cymdeithasol. Yn gyffredinol, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd nad oedd y Rhaglen Lywodraethu yn golygu bod angen ailwampio'r HCF yn sylfaenol, gan fod ei phrif flaenoriaethau eisoes wedi'u hymgorffori yn strwythur a dyluniad y rhaglen.

5.2. Cyfatebiaeth â chronfeydd eraill

Archwiliodd y cyfweiliadau cwmpasu y gyfatebiaeth rhwng yr HCF a rhaglenni cyllid cyfalaf eraill, yn enwedig y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, a'r Grant Tai Cymdeithasol. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cydnabod bod y ffrydiau cyllido hyn wedi'u bwriadu i weithredu ar y cyd yn hytrach nag ar eu pen eu hunain. Credwyd bod hyn yn cael ei gefnogi nid yn unig gan drefniadau llywodraethu ar y cyd, ond hefyd gan y disgwyliad y bydd cynlluniau'n cyfuno ffynonellau cyllido. Er enghraifft, mae cynlluniau Tai â Gofal Amcan 1 fel arfer yn manteisio ar gyllid yr HCF yn ogystal â'r Grant Tai Cymdeithasol, tra bod cynlluniau Amcan 2 yn aml yn cael eu cefnogi ar y cyd gan HCF a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

Fodd bynnag, amlygodd y gwaith maes ar y cam cwmpasu hefyd gymhlethdod y maes cyllid cyfalaf, o ystyried nifer y rhaglenni cyllido sy'n gweithredu ar draws y meysydd iechyd, tai a gofal cymdeithasol. Roedd safbwyntiau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gymysg. Roedd rhai o'r farn bod y strwythur presennol yn effeithiol, gan ei fod yn galluogi dull cyllido cymysg, a chaniatáu i nifer o ffrydiau cyllido gael eu cyfuno i gefnogi datblygiadau mwy o

faint neu fwy cymhleth. Fodd bynnag, dadleuodd eraill dros symleiddio a rhesymoli'r seilwaith cyllid grant cyfalaf gan y byddai hyn yn lleihau oedi sy'n gysylltiedig â cheisiadau am gyllid cyfunol. Cyfeiriodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at y potensial i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng elfennau o'r HCF a threfniadau'r Grant Tai Cymdeithasol, ac aeth eraill gam ymhellach gan awgrymu y gellid ymgorffori elfen Amcan 1 yr HCF yn fframwaith y Grant Tai Cymdeithasol. Mae'n werth ymchwilio ymhellach i'r mater hwn fel rhan o'r gwerthusiad, yn enwedig i asesu a allai rhesymoli mwy ar ffrydiau cyllido helpu i symleiddio prosesau, gwella cydlyniant, a lleihau dyblygu posibl.

5.3. Dylunio

Roedd y rhai a gymerodd ran mewn cyfweiliad cwmpasu yn ystyried bod yr HCF yn olynydd naturiol i raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ac awgrymwyd ei bod wedi ymgorffori prif wersi o'r gyn cronfa. Cafodd y newid o'r Gronfa Gofal Integredig i'r HCF ei sbarduno gan yr angen i gynyddu'r cyflenwad o dai addas a sicrhau mwy o gysondeb o ran buddsoddiad cyfalaf a draws y meysydd iechyd, tai a gofal cymdeithasol. Nododd y rhai a gyfwelwyd hefyd bwyslais cryfach o fewn yr HCF ar gefnogi'r sector gofal plant nid-er-elw, sy'n cynrychioli newid mewn ffocws polisi o'i gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig.

Awgrymodd cynrychiolwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yr HCF yn rhoi mwy o eglurder iddynt na'r Gronfa Gofal Integredig o ran ei phwrpas a'i blaenoriaethau. Ystyriwyd bod ffocws cliriach y rhaglen wedi helpu i gyfeirio buddsoddiad tuag at feysydd sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, yn enwedig darpariaeth yn seiliedig ar welyau. Fodd bynnag, mae'r eglurder cynyddol hwn hefyd wedi arwain at gwmpas culach, ac mae rhai mathau o ddarpariaeth gymunedol, megis canolfannau cymunedol, bellach y tu allan i gylch gwaith y gronfa.

Er gwaethaf hynny, roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ystyried bod yr HCF yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion rhanbarthol amrywiol ac esblygol.

Gwerthfawrogydd yr hyblygrwydd hwn gan ei fod yn caniatáu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymateb i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig mewn perthynas â chaffael eiddo. Ystyriwyd bod yr ymatebolrwydd hwn yn arbennig o bwysig mewn marchnad dai gystadleuol, lle y gall oedi arwain at golli cyfleoedd.

5.3.1. Trefniadau llywodraethu

Un mater pwysig a godwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau cwmpasu mewn perthynas â llywodraethu'r HCF oedd y ffaith nad yw canllawiau'r gronfa wedi cael eu

diweddarau ers iddynt gael eu cyhoeddi'n wreiddiol ym mis Mai 2022. Er y cydnabuwyd nad oes unrhyw newidiadau mawr wedi bod i'r HCF ers ei sefydlu, teimlai'r rhai a gyfwelwyd y byddai'r canllawiau'n elwa o gael eu hadolygu a'u hadnewyddu'n flynyddol.

Mynegodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bryder nad yw'r canllawiau wedi newid er gwaethaf y ffaith iddynt roi adborth ac awgrymiadau ar gyfer diwygiadau i Lywodraeth Cymru. Cafodd hyn ei gymharu â rhaglenni cyllid cyfalaf eraill, fel y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, lle mae'r canllawiau'n cael eu diweddarau'n fwy rheolaidd. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd y byddai diweddariadau amlach yn helpu i sicrhau bod y canllawiau'n parhau i fod yn gyfredol ac yn ymatebol i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal ag adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd am agwedd weithredol y rhaglen dros amser.

Ochr yn ochr â hynny, dywedodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod wedi cryfhau a ffurfioli eu trefniadau llywodraethu eu hunain ers i'r HCF gael ei chyflwyno. Mae'r datblygiad hwn wedi'i ysgogi i raddau helaeth gan yr angen i gefnogi dull mwy strategol a chydlynol o gynllunio a chyflawni cynlluniau cyfalaf drwy eu Cynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol. Roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cydnabod bod maint ac uchelgais yr HCF yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu strwythurau llywodraethu rhanbarthol mwy cadarn.

Canfu'r cyfweiliadau cwmpasu fod trefniadau llywodraethu yn amrywio ar draws y rhanbarthau. Er bod pob rhanbarth wedi mabwysiadu dull haenog yn gyffredinol, lle mae cynlluniau llai yn cael eu cymeradwyo ar lefelau is a chynlluniau mwy yn cael eu huwchgysfeirio i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol llawn, mae gwahaniaethau nodedig o ran y ffordd y mae'r prosesau hyn yn gweithredu'n ymarferol. Er enghraifft, mae un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno cam mynegi diddordeb i helpu i hidlo ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gam cynnar, a thrwy hynny leihau nifer y ceisiadau llawn aflwyddiannus.

Amlygodd y cyfweiliadau cwmpasu hefyd y gred bod diffyg mecanwaith parhaus ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion da ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, nodwyd bod cynhadledd yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso wedi'i chynnal i gefnogi'r gwaith o rannu arferion da. Er bod canllawiau'r HCF yn nodi y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol arwain cyfranogiad mewn cymuned ymarfer sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar lety, nid oedd hyn yn amlwg yn ymarferol. Yn lle hynny, dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod yn cydweithio'n anffurfiol i rannu profiadau ac, yn fwy diweddar, i ddatblygu fframwaith canlyniadau a dull gwerthuso cyffredin. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn gadarnhaol,

nododd y rhai a gyfwelwyd y byddai dull mwy strwythuredig a chydlynol, o bosibl wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru, yn cryfhau'r hyn a ddysgir a chysondeb ac effeithlonrwydd cyffredinol y gronfa.

5.3.2. Y ffordd y gweinyddwyd y rhaglen

Gwahaniaeth arall o'i gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig a godwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau cwmpasu oedd y ffordd y gweinyddwyd y rhaglen. O dan y Gronfa Gofal Integredig, dyrannwyd cyllid cyfalaf i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a oedd yn gyfrifol am weinyddu grantiau. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, o dan yr HCF, mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu cyllid Amcanion 1 a 2 yn uniongyrchol i'r sefydliadau sy'n ei dderbyn, ac mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cadw'r cyfrifoldeb am Amcan 3 (yr elfen prosiectau bach). Bwriad y penderfyniad i ymgymryd â'r broses ymgeisio a gweinyddol ar gyfer cyllid Amcanion 1 a 2 yn fewnol oedd symleiddio gweithdrefnau a chyflymu taliadau.

Nododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau cwmpasu y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r model hwn. Roedd y manteision canfyddedig yn cynnwys mwy o gysondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau, cyfleoedd gwell i rannu'r hyn a ddysgwyd ledled Cymru, a'r gallu i Lywodraeth Cymru wneud taliadau'n uniongyrchol i sefydliadau arweiniol. Ystyriwyd bod y ffactorau hyn yn cefnogi dull mwy safonol a thryloyw o weinyddu cronfeydd. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at nifer o heriau hefyd. Yn benodol, roedd rhai o'r farn bod y gofyniad i Weinidogion gymeradwyo penderfyniadau panel yn anghymesur, gan gyflwyno camau ychwanegol i'r broses a chreu tagfeydd posibl. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd y gallai fod dadl dros ddirprwyo mwy o benderfyniadau cyllido, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac amseroldeb.

Yn ogystal â hynny, roedd barn y gallai'r goblygiadau i adnoddau yn sgil canoli'r broses weinyddol fod wedi'u tanamcangyfrif. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr hawliadau a brosesir yn ganolog, heb gynydd cyfatebol mewn capasiti staffio. Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y tîm sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen ac efallai y bydd goblygiadau i amseroedd prosesu ac effeithlonrwydd cyffredinol.

5.3.3. Y trefniadau ymgeisio

Awgrymodd y cyfweiliadau cwmpasu fod prosesau cadarn ar waith yng nghyfnod cymhwyso'r HCF. Credwyd bod y cynigion yn destun prosesau craffu ariannol a thechnegol manwl, gan gynnwys asesiadau o safonau dylunio, hygyrchedd, statws cynllunio, a chapasiti. Fodd bynnag, ar ôl i'r cynlluniau gael eu cymeradwyo, tybiwyd bod y gwaith

monitro yn canolbwyntio'n bennaf ar hawliadau ariannol yn hytrach na gwaith cyflawni neu ganlyniadau parhaus.

Roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael profiadau cymysg o'r broses ymgeisio, a bydd yn ddefnyddiol i'r gwerthusiad ymchwilio ymhellach i'r rhain. Roedd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried yr HCF yn rhaglen gyllido gyflymach a mwy ymatebol o'i chymharu â rhaglenni cyfalaf eraill fel y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu. Yn un o'r ardaloedd hyn, roedd ymdeimlad bod hyn wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar yr HCF oherwydd ei symlrwydd a'i hyblygrwydd. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, eraill yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau adnewyddu o dan Amcan 2, lle yr ystyriwyd bod lefel y gwaith craffu technegol a fabwysiadwyd yn ystod y cyfnod ymgeisio yn cyfrannu at oedi.

Dywedodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod cael mynediad at gyllid o dan Amcan 1 yn fwy cymhleth na threfniadau cyfatebol y Grant Tai Cymdeithasol gan alw am ganllawiau cliriach, mwy o gysondeb, a chyfathrebu gwell drwy gydol y broses asesu. Ymhlith y materion pwysig a nodwyd roedd oedi yn deillio o gamau cymeradwyo lluosog, diffyg amserlenni pendant ar gyfer penderfyniadau ynghylch ceisiadau, dyblygu o ran y wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn ffurflenni cais a dogfennau ategol, a diffyg prosesau a dogfennau ymgeisio safonol ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

5.3.4. Cyllid Amcan 3

Mae'r dulliau o weinyddu cyllid Amcan 3 yn amrywio ar draws y rhanbarthau, ond fel arfer gormod o alw na ellir ei ddiwallu am y gronfa ym mhob ardal. Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio galwad flynyddol am gynigion prosiectau ledled y rhanbarth, ac mae eraill yn dyrannu swm penodol o gyllid i bob awdurdod lleol i'w ddefnyddio yn ôl eu disgrisiwn. Mewn un rhanbarth, mae'r dull wedi esblygu'n ddiweddar: roedd cyllid yn cael ei ddosbarthu i bob awdurdod lleol yn flaenorol yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth, ond mae model cymysg ar waith bellach, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid yn dal i gael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn ôl poblogaeth a chyfran wedi'i neilltuo ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol.

5.4. Cyflawniad a chynnydd y rhaglen hyd yma

5.4.1. Defnydd o'r cyllid

Dangosodd y cyfweiliadau cwmpasu fod amrywiad rhanbarthol sylweddol yn y ffordd y mae'r gronfa HCF wedi cael ei defnyddio, gan adlewyrchu gwahanol flaenoriaethau, anghenion a

chyd-destunau cyflawni lleol. Er bod rhai rhanbarthau wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau Amcan 1, mae eraill wedi rhoi mwy o bwyslais ar Amcanion 2 neu 3. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd hyblygrwydd o fewn y fframwaith cyllido ac yn awgrymu y gallai priodoldeb y terfynau dyrannu presennol warantu archwiliad pellach o fewn y gwerthusiad.

Adlewyrchwyd yr amrywiad hwn mewn dull gweithredu yn gyson yn yr adborth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mewn un rhanbarth, defnyddiwyd y grant yn bennaf ar gyfer nifer bach o gynlluniau ar raddfa fawr, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r agenda dileu elw wedi arwain at newid nodedig, gyda mwy o ddatblygiadau darpariaeth breswyl i blant drwy'r HCF. Mewn rhanbarth arall, mae cyllid wedi'i gyfeirio at gefnogi plant ag anghenion cymhleth, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth breswyl leol er mwyn lleihau dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal. Mewn trydydd rhanbarth, rhoddwyd mwy o bwyslais ar gynlluniau Amcan 2, gan gynnwys cartrefi i grwpiau bach a thai sy'n gysylltiedig â gofal ac mewn pedwerydd rhanbarth, mae'r buddsoddiad wedi canolbwyntio ar lety byw â chymorth i oedolion o oedran gweithio a chanddynt anableddau dysgu. At ei gilydd, mae'r amrywiad hwn yn dangos bod yr HCF yn cael ei defnyddio mewn ffordd hyblyg i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol gwahanol. Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu rhywfaint o anghysondeb o ran y ffordd y defnyddir y gronfa ledled Cymru, a allai effeithio ar degwch, cyfatebiaeth â'r strategaeth, a sut y caiff cyllid ei ddosbarthu rhwng gwahanol grwpiau.

O ran y nifer sy'n manteisio ar gyllid Amcan 3 a'r defnydd ohono, neges gyson gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oedd bod y galw wedi bod yn uchel ac yn aml yn fwy na'r dyraniad o 10% ar gyfer y prosiectau llai hyn, gan awgrymu y gallai'r dyraniad fod yn rhy isel. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd fod hyn yn adlewyrchu lefelau sylfaenol o angen a pha mor hawdd yw datblygu a chyflawni'r prosiectau hyn, o'i gymharu â'r cynlluniau mwy o faint a mwy cymhleth a ariennir o dan Amcanion 1 a 2. Bydd yn werth i'r gwerthusiad archwilio a yw'r dyraniad cyllid ar draws y tri Amcan yn parhau i fod yn briodol ai peidio.

Mae ystod eang o weithgareddau wedi cael eu cefnogi drwy gyllid Amcan 3, gan gynnwys:

- cymhorthion ac addasiadau
- cyfarpar arbenigol a chymunedol
- gwaith adnewyddu ar raddfa fach ac ailgomisiynu lle nas defnyddir
- ymyriadau i atal derbyniadau i'r ysbyty neu i alluogi pobl i gael eu rhyddhau yn gynharach

- atebion gofal sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg
- cynlluniau gofal a thrwsio
- grantiau bach i fynd i'r afael â rhwystrau i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel (e.e. eitemau hanfodol i'r cartref)
- cyfarpar codi a chymorth arbenigol mewn cartrefi gofal

Awgrymodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd y gall buddsoddiadau Amcan 3 ddarparu buddion anghymesur o uchel o'i gymharu â'u maint. Er bod y cyllid yn cynrychioli cyfran gymharol fach o ddyraniad cyffredinol yr HCF, roedd yn cael ei ystyried yn eang fel un sy'n creu effeithiau sylweddol ac uniongyrchol. O'r herwydd, nododd y rhai a gyfwelwyd y dylid cynnwys y prosiectau hyn yn y sampl a ddewisir fel sail i'r gwerthusiad hwn.

5.4.2. Heriau'n ymwneud â chyflawni'r rhaglen

Nodwyd nifer o heriau'n ymwneud â chyflawni'r rhaglen yn ystod y cyfweiliadau cwmpasu, a bydd yn werth ymchwilio i'r rhain ymhellach yn ystod y gwerthusiad:

- diffyg cyfatebiaeth â chylchoedd cyllido. Nid ystyriwyd bod amserlenni cyflawni cyfalaf yn cyd-fynd yn dda â chylchoedd cyllido blynyddol, a chredwyd mai hyn sydd i'w gyfrif am y tanwariant ym mlynnyddoedd cynnar y rhaglen. Er bod hyn wedi gwella dros amser wrth i syniadau gael eu cyflwyno, nododd y rhai a gafodd eu cyfweld y gall cyllid tymor byr ac ansicr amharu ar y momentwm, gwanhau datblygiad llif y prosiectau, a chreu heriau i sefydliadau cyflawni. Soniwyd hefyd am oedi cyn cyhoeddi llythyrau dyfarnu cyllid mewn rhai rhanbarthau, gan leihau ymhellach yr amser sydd ar gael i gyflawni'r cynlluniau
- capasiti ac arbenigedd cyfyngedig. Dywedodd sawl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nad oedd ganddynt yr arbenigedd technegol sydd ei angen i ddatblygu a chyflawni cynlluniau cyfalaf sy'n canolbwyntio ar dai i ddechrau. Er bod hyn wedi gwella dros amser, mae capasiti yn parhau i fod yn broblem, gan mai cronfa gymharol fach o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddatblygu cynlluniau cyfalaf
- datblygu llif o gynlluniau. Cydnabu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol nad oedd ganddynt gynlluniau "parod i fynd" ar ddechrau'r HCF, a bod hyn, ynghyd â diffyg Cynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol sefydledig, wedi cyfrannu at ddechrau araf a thanwariant cynnar. Mae llawer o ranbarthau wedi datblygu llif cryfach o gynlluniau ers hynny, er bod amseroedd paratoi hir ar gyfer cynlluniau mawr yn parhau i effeithio ar gyflymder y broses gyflawni

- argaeledd cyllid refeniw. Ystyriwyd bod diffyg cyllid refeniw i gefnogi asedau newydd a ariennir gan yr HCF yn her gyson. Mae hyn wedi effeithio ar hyfywedd cynlluniau, gyda rhai cynlluniau wedi'u tynnu'n ôl neu wedi'u hailwampio, ac mewn rhai achosion mae cyfleusterau newydd yn parhau i fod heb eu defnyddio tra bod trefniadau refeniw yn cael eu cadarnhau
- heriau cyflawni ymarferol. Nododd y rhai a gyfwelwyd ystod o heriau cyflawni ymarferol sydd wedi effeithio ar gynlluniau, gan gynnwys oedi gyda chynllunio, methiant gan contractwyr, a chynydd mewn costau adeiladu. Mae pwysau yn sgil chwyddiant hefyd wedi arwain at gostau cyflawni uwch a mwy o amrywiadau, gan roi gofynion ychwanegol ar noddwyr cynlluniau ac adnoddau gweinyddol Llywodraeth Cymru.
- amrywiad o ran mynediad at gyllid. Tynnodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd sylw at amrywiad rhanbarthol yn y graddau y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi gallu cael mynediad at gyllid yr HCF, gan awgrymu anghysondebau posibl mewn ymwybyddiaeth, ymgysylltiad, neu brosesau ar draws rhanbarthau.

5.5. Casglu data ac adrodd arnynt

5.5.1. Allbynnau'r HCF

Mae adborth gan y rhai a gyfwelwyd yn ystod y cam cwmpasu yn awgrymu bod data ar gael ar gyfer allbynnau canlynol y rhaglen:

- y cyllid a ddyrannwyd
- y cyllid a wariwyd
- nifer y cynlluniau a gymeradwywyd
- nifer y gwelyau y bwriadwyd eu creu

Ar hyn o bryd, nid oes data cynhwysfawr ar lefel rhaglen ar gael ar gyfer yr allbynnau canlynol ar:

- nifer y cynlluniau a gwblhawyd
- nifer y gwelyau a grëwyd
- nifer y gwelyau a ddefnyddiwyd yn unol â'r bwriad

5.5.2. Canlyniadau'r HCF

Nododd y cyfweiliadau cwmpasu ystod o ganlyniadau disgwyliedig ar gyfer yr HCF, a gellir grwpio'r rhain yn ganlyniadau ar lefel unigol a chanlyniadau ar lefel system:

Lefel unigol

- pobl yn byw yn (lled) annibynnol am gyfnod hwy
- pobl yn byw mewn llety o ansawdd gwell/addas
- pobl yn byw gartref, yn agosach at eu cartref ac yn eu cymunedau
- pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol
- pobl yn teimlo'n fwy diogel a sefydlog gartref
- pobl yn dweud bod eu hiechyd a'u llesiant wedi gwella
- pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gyflymach

Lefel system

- stoc tai â chymorth o ansawdd uwch
- dull mwy integredig o gynllunio atebion llety
- dileu elw o ddarpariaeth gofal plant
- gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir
- llai o bwysau ar ysbytai
- llai o bwysau ar leoliadau gofal a gofal teuluol
- arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus

Er bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno canlyniadau buddsoddiadau yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd llywodraethu, ar hyn o bryd nid oes digon o ddata monitro cyson a chynhwysfawr ar gael ar lefel rhaglen neu ar lefel ranbarthol i ddangos y canlyniadau a nodwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn. Er bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar eu data monitro gan ddefnyddio taenlenni Cynllun Buddsoddi Cyfalaf, nid yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyffredinol yn casglu nac yn adrodd ar y wybodaeth mewn modd cyson. Mae hyn yn golygu bod bwlch mawr yn y sylfaen dystiolaeth ar lefel y rhaglen, a allai gyfyngu ar y graddau y gellir dangos cyflawniadau ac effaith yr HCF yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Er hyn, bydd y gwaith maes sy'n weddill gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, staff prosiectau a defnyddwyr gwasanaethau yn casglu tystiolaeth o effaith y rhaglen.

Un cam a gaiff ei gymryd i liniaru'r bwlch yn y data fydd anfon ffurflen casglu data at y prosiectau a ariannwyd ac a wahoddwyd i gyfweliad, gan ofyn iddynt ei chwblhau cyn y cyfweliad. Bydd y ffurflen yn gofyn am wybodaeth feintiol ynghylch yr allbynnau a'r canlyniadau a nodwyd yn y Ddamcaniaeth Newid (er enghraifft, gwir nifer y gwelyau a grëwyd a nifer y bobl sydd ar hyn o bryd yn byw gartref neu'n nes at eu cartrefi ac yn eu cymunedau o ganlyniad i'r prosiect a ariannwyd gan yr HCF). Er na ddylid ystyried bod y data hwn yn gynhwysfawr chwaith, bydd y canlyniadau cyfanredol o gymorth i roi cyd-destun i ganfyddiadau ansoddol y gwerthusiad ac fe'u cyhoeddir yn yr adroddiad terfynol.

Datgelodd y cyfweliadau cwmpasu mai un rhwystr pwysig fu capasiti cyfyngedig staff canolog a rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu fframwaith monitro canlyniadau ar gyfer y gronfa. Felly mae cyfle amlwg i gryfhau trefniadau monitro, gan gynnwys datblygu set gyson o dulliau mesur canlyniadau i gefnogi gwerthusiad mwy cadarn a gwella'r rhaglen yn barhaus. Dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod wedi bod yn cydweithio ar ddull gwerthusio addas, ond mae'r gwaith hwn yn ei gamau cynnar o hyd ac nid yw wedi'i weithredu'n llawn eto. Soniodd sawl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei fod yn datblygu set o ddangosyddion addas ac yn bwriadu cyflwyno dulliau casglu data megis holiaduron ôl-adeiladu ar gyfer contractwyr, arolygon ôl-feddiannu ar gyfer rheolwyr gwasanaethau, ac astudiaethau achos o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd y data ar gael mewn pryd er mwyn eu hystyried yn y gwerthusiad hwn.

Mae adborth gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn awgrymu bod yr HCF wedi bod yn allweddol o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau tai arbenigol. Yn absenoldeb y gronfa, byddai llawer o'r datblygiadau mwy o faint a mwy cymhleth hyn wedi disodli tai ar gyfer anghenion cyffredinol a ariennir drwy'r Grant Tai Cymdeithasol neu wedi arwain at gryn dipyn o oedi. Tynnodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sylw hefyd at y manteision sylweddol y mae'r gronfa wedi'u darparu i unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hwy yn eu cartrefi a'u cymunedau, gan leihau'r angen am gymorth iechyd a gofal cymdeithasol mwy dwys mewn lleoliadau fel cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio ac ysbytai.

Awgrymodd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau cwmpasu hefyd fod yr HCF yn cyflawni arbedion ariannol posibl sylweddol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ond nad oes data sy'n dangos tystiolaeth o hyn yn cael eu casglu. Er y gallai'r gwerthusiad hwn chwilio am dystiolaeth o'r math hwn o ddata ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil

cynradd, mae angen dull gwerthuso mwy strwythuredig ar gyfer unrhyw fersiwn o'r cynllun yn y dyfodol a fydd yn cynnwys dulliau megis adenillion cymdeithasol o fuddsoddi.

6. Casgliadau ac argymhellion cychwynnol

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad desg a'r cyfweiliadau cwmpasu, rydym yn cynnig y casgliadau a'r argymhellion cychwynnol canlynol i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar y cam hwn. Bydd y casgliadau a'r argymhellion hyn yn cael eu hadolygu a'u gwella yn ystod y gwerthusiad wrth i dystiolaeth bellach gael ei chasglu yn ystod y cam gwaith maes cynradd.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod yr HCF yn rhaglen gyfalaf o bwysigrwydd strategol, gyda rhesymeg glir a'i bod yn cael ei chefnogi'n eang gan randdeiliaid. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o gyfweiliadau cwmpasu yn dangos y byddai agweddau ar y canllawiau yn elwa o gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu sut y mae'r rhaglen wedi esblygu'n ymarferol. Mae hyn yn dangos bod gwerth i adolygu'r canllawiau i sicrhau mwy o eglurder a chysondeb o ran ei chyflawni ledled Cymru.

- **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau a diwygio canllawiau'r HCF, gan ddefnyddio'r adborth a ddarparwyd eisoes gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn tynnu sylw at amrywiadau rhanbarthol mewn trefniadau llywodraethu, dulliau cyflawni, a'r ffordd y mae'r hyn a ddysgwyd cael ei rannu ar draws y rhaglen. Er bod rhywfaint o gydweithio anffurfiol yn digwydd rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, prin yw'r cyfleoedd i ledaenu arferion da ar draws rhanbarthau a sefydliadau cyflawni. Gallai cryfhau cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd helpu i wella cysondeb a sicrhau bod y ffordd y caiff y gronfa ei darparu yn fwy effeithiol.

- **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu dull mwy ffurfiol o rannu'r hyn a ddysgir ac arferion da sy'n deillio o'r HCF, naill ai drwy'r gymuned ymarfer ar atebion sy'n seiliedig ar lety neu drwy rwydwaith pwrpasol.

Er bod data monitro'r HCF yn rhoi trosolwg defnyddiol o ddyraniadau, gwariant ac allbynnau bwriadedig, ar hyn o bryd prin iawn yw'r dystiolaeth ar lefel rhaglen ar gynlluniau a gwblhawyd, y defnydd o'r ddarpariaeth, neu'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer unigolion a gwasanaethau. Bydd hyn yn cyfyngu ar y graddau y gellir dangos cyflawniadau ac effaith y gronfa yn y gwerthusiad. Felly mae angen clir am fframwaith canlyniadau a gwerthuso mwy cyson, wedi'i ategu gan ddangosyddion y cytunwyd arnynt a threfniadau monitro gwell.

- **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu fframwaith canlyniadau a gwerthuso ar gyfer y rhaglen, gan adeiladu ar y canlyniadau a nodir yng nghanllawiau'r HCF. Dylai hyn gynnwys set o

ddangosyddion lefel rhaglen y cytunwyd arnynt a mwy o ffocws ar fonitro ac adrodd yn gyson gyflawni'r dangosyddion hynny.

Yn olaf, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yr HCF yn gweithredu o fewn system gymhleth lle mae buddsoddiad cyfalaf yn gweithredu'n bennaf fel dull galluogi yn hytrach na sbardun uniongyrchol ar gyfer newid. Mae cyfraniad y gronfa at ganlyniadau tymor hwy yn dibynnu ar ystod o amodau ehangach, gan gynnwys integreiddio gwasanaethau, capasiti'r gweithlu a chyllid refeniw, ac nid yw llawer ohonynt yn ddigon eglur yn rhesymeg bresennol y rhaglen. Mae hyn yn dangos yr angen i ddatblygu Damcaniaeth Newid gliriach a mwy gweithredol ar gyfer cyllid yn y dyfodol neu raglenni olynol.

- **Argymhelliad 4:** Ar gyfer rhaglenni cyllido neu raglenni olynol yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a sefydlu Damcaniaeth Newid fwy penodol a gweithredol, gan nodi'n glir y mecanweithiau, y rhagdybiaethau, a'r dibyniaethau o fewn y system sy'n sail i'r canlyniadau y bwriedir i'r rhaglenni eu cyflawni. Byddai hyn yn cryfhau dyluniad rhaglenni, yn cefnogi'r broses o gynnal gwerthusiad mwy cadarn, ac yn gwella'r ddealltwriaeth o sut y mae buddsoddiad cyfalaf yn cyfrannu at newid ehangach yn y system.

Atodiad A Rhaglen waith a fframwaith y gwerthusiad

Caiff y camau sy'n weddill o'r gwerthusiad eu hamlinellu yn yr Atodiad hwn a'u crynhoi yn Ffigur A.1.

Ffigur A.1: Y camau sy'n weddill o'r gwerthusiad

Pecyn gwaith 4: Ymchwil cynradd (Gorffennaf 2026 - Rhagfyr 2027)				
Tasg 4.1 Hysbysiadau Preifatrwydd	Tasg 4.2 Offerynnau ymchwil, samplu a data cyswllt	Tasg 4.3 Gwaith maes gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	Tasg 4.4 Gwaith maes gyda phrosiectau	Tasg 4.5 Astudiaethau achos
Allbynnau: Canllawiau trafod, fframwaith samplu, nodiadau o gyfweiliadau/trafodaethau grŵp (at ddefnydd mewnol OB3 yn unig)				
				
Pecyn gwaith 5: Llunio a chyflwyno adroddiad (Ionawr – Mawrth 2027)				
Tasg 5.1 Dadansoddiad a llunio adroddiad drafft	Tasg 5.2 Adroddiad dwyieithog terfynol		Tasg 5.3 Cyflwyniad	
Allbwn: Matrics dadansoddi (OB3, defnydd mewnol yn unig), sleidiau ar gyfer cyflwyniad, adroddiad drafft ac adroddiad terfynol dwyieithog gyda chrynodeb gweithredol				

Pecyn Gwaith 4: Ymchwil cynradd

Bydd y cam hwn yn cynnwys:

- Tasg 4.1: datblygu set o Hysbysiadau Preifatrwydd dwyieithog, gan gynnwys fersiynau hygyrch, yn ogystal â gwahoddiadau, taflenni gwybodaeth hawdd eu deall a ffurflenni caniatâd i'w dosbarthu i gyfranwyr fel y bo'n briodol
- Tasg 4.2: datblygu canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â defnyddwyr gwasanaethau a ariannwyd, a'u teuluoedd/gofalwyr; staff cynlluniau a ariannwyd ac arweinwyr ac aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Byddwn hefyd yn datblygu fframwaith samplu i sicrhau bod y gwaith maes ansoddol yn adlewyrchu natur cynlluniau a phrosiectau a ariannwyd drwy'r HCF. Bydd y fframwaith samplu yn seiliedig ar ein dadansoddiad desg ac yn ystyried:

- Rhanbarth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dewisir tri chynllun o bob rhanbarth er mwyn darparu trawstoriad daearyddol o gynlluniau o fewn y sampl
 - Grwpiau blaenoriaeth. Bydd cynlluniau'n cael eu dewis o blith y 5 grŵp blaenoriaeth sy'n gymwys ar gyfer yr HCF yn unol â'r nifer a ariennir, gyda gorsamplu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau cwrddpas da
 - Gwerth y cyllid. Bydd trawstoriad o gynlluniau mawr, canolig a bach a ariannwyd yn cael eu cynnwys yn y sampl; gan roi ystyriaeth ychwanegol i'r ffaith bod strwythur cyllido Amcan 3 wedi cefnogi nifer mwy o brosiectau bach
 - Strwythur cyllido. Bydd sampl gynrychioliadol o gynlluniau a ariannwyd o dan bob Amcan yn cael ei nodi
- Tasg 4.3: trefnu cyfweiliadau gyda hyd at 35 o gynrychiolwyr o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, tua pump o bob rhanbarth. Bydd arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi cyfranwyr addas o'u hardal i'w cyfweld, a byddwn yn sicrhau bod trawstoriad o gyfranwyr yn cymryd rhan gan gynnwys arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhai o'u staff cymorth, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cyfarwyddwyr gwasanaethau, sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau
 - Tasg 4.4: yn unol â'r fframwaith samplu a ddatblygwyd yn Nhasg 4.2, byddwn yn cysylltu â 21 o gynlluniau a ariannwyd yn gofyn iddynt gyfrannu at y gwerthusiad. Byddwn yn gofyn am ddogfennau ar lefel cynllun ac yn ymglyfarwyddo â nhw, ac ym mhob achos, cynhelir cyfweiliadau neu drafodaethau grŵp bach gydag arweinydd y cynllun (yn cwrddpasu materion strategol ac integreiddio yn ogystal ag agweddau ar lywodraethu a gweinyddu'r rhaglen) a rheolwr gweithredol (i ddeall yr effaith y mae'r cyfleusterau wedi'i chael ar y boblogaeth darged)
 - Tasg 4.5: byddwn yn cynnal gwaith maes gyda defnyddwyr gwasanaethau ar draws saith o'r cynlluniau a ddewiswyd a byddwn yn anelu at gyfarfod a chyfweld wyneb yn wyneb â chyfanswm o tua 28 o unigolion. Ein nod o ran yr astudiaethau achos hyn fydd deall y gwahaniaeth gwirioneddol y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud i

ddefnyddwyr (a'u gofalwyr/teuluoedd), yn eu geiriau eu hunain. I gynorthwyo yn hyn o beth, byddwn yn defnyddio'r dull Newid Mwyaf Sylweddol⁵

Pecyn Gwaith 5: Dadansoddiad, a llunio a chyflwyno adroddiad

Bydd y cam hwn yn cynnwys:

- Tasg 5.1: defnyddio'r Dull Fframwaith i syntheseiddio canfyddiadau'r ymchwil desg, y dadansoddiad a'r gwaith maes; a pharatoi adroddiad drafft wedi'i adolygu gan gymheiriaid ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r templed GSR. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys model rhesymeg ar ffurf Damcaniaeth Newid a naratif terfynol a bydd yn cynnwys astudiaethau achos ar lefel cynllun yn seiliedig ar gyfweiliadau â staff y cynllun a defnyddwyr gwasanaethau
- Tasg 5.2: derbyn sylwadau gan Lywodraeth Cymru ar y drafft a gwneud gwelliannau, yn ôl yr angen, a chyflwyno fersiwn ddiwygiedig yn nodi argymhellion clir ar gyfer y dyfodol ynghyd â chrynodeb gweithredol ac atodiad technegol. Yna byddwn yn trefnu i'r adroddiad terfynol gael ei gyfieithu i'r Gymraeg
- Tasg 5.3: cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad mewn gweithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

Fframwaith Gwerthuso

Amlinellir fframwaith gwerthuso yn Ffigur A.2. Mae'n adlewyrchu amcanion penodol y gwerthusiad yn ogystal â chwestiynau ymchwil ychwanegol a nodwyd yn ystod y cam cwmpasu (sef cwestiynau ymchwil 7 i 11, a 29).

Ffigur A.2: Fframwaith gwerthuso

	Ymchwil Eilaidd			Ymchwil Cynradd			
	Adolygiad o bolisiau	Adolygiad o ddogfennau'r rhaglen	Adolygiad o Wybodaeth Reoli	Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol /	Staff prosiectau a ariannwyd	Defnyddwyr gwasanaethau

⁵ Davies, R., and Dart, J. (2005) *The 'Most Significant Change' (MSC) technique: A guide to its use*, sydd ar gael yn at <https://mande.co.uk/special-issues/most-significant-change-msc/>

Effeithiolrwydd y rhaglen o ran yr amcanion a'r trefniadau llywodraethu a gweinyddol							
CY1: Pa mor effeithiol fu'r broses o gyflawni'r rhaglen o safbwynt Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Partneriaid Cyflawni (Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Byrddau Iechyd a Sefydliadau'r Trydydd Sector)?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY2: Pa mor llwyddiannus fu cysoni proses ymgeisio a chraffu technegol Amcan 1 â'r Grant Tai Cymdeithasol o ran cyflawni prosiectau a ariannwyd ar y cyd?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY3: Pa mor effeithiol a chyson yw'r prosesau comisiynu ar gyfer prosiectau Amcan 1 ar lefel ranbarthol a lleol ar gyfer prosiectau HCF/Grant Tai Cymdeithasol ar y cyd?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY4: Pa mor llwyddiannus fu proses Amcan 2 o ran cyflawni prosiectau HCF?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY5: Beth fu llwyddiannau'r rhaglen HCF o ran yr amcanion a'r prosesau llywodraethu a gweinyddol?		✓	✓	✓	✓	✓	
CY6: Pa heriau a welwyd gyda'r rhaglen HCF mewn perthynas â'r		✓		✓	✓	✓	

amcanion a'r prosesau llywodraethu a gweinyddol?							
CY7: Sut y gellid gwella prosesau llywodraethu a gweinyddol yr HCF yn y dyfodol?		✓		✓	✓	✓	
CY8: Beth sydd i'w gyfrif am y gwahaniaeth yn y ffordd y mae cyllid HCF yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarthau?					✓	✓	
CY9: Pa mor briodol yw dyraniadau cyllido presennol HCF ar draws Amcanion 1, 2 a 3? Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud yn y dyfodol i'r dyraniadau hyn?		✓	✓	✓	✓		
CY10: Pa mor briodol yw'r sefyllfa gyffredinol mewn perthynas â chyllid cyfalaf ar draws y meysydd iechyd, tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac a oes lle i wella neu resymoli hyn?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY11: Beth oedd y prif heriau a wynebwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phrosiectau a ariannwyd wrth gyflawni'r HCF? Sut, os o gwbl, y gellid mynd i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol?		✓		✓	✓	✓	
I ba raddau y mae'r HCF yn cefnogi poblogaethau sy'n heneiddio i barhau i fyw'n annibynnol							
CY12: Pa fath o gymorth tai sydd wedi'i ddarparu fel rhan o'r HCF ar		✓	✓		✓	✓	

gyfer poblogaethau sy'n heneiddio?							
CY13: I ba raddau y mae'r HCF wedi cyfrannu at welliannau mewn ansawdd bywyd ac iechyd poblogaethau sy'n heneiddio?		✓			✓	✓	✓
CY14: I ba raddau y mae cyllid Amcan 3 yn cefnogi'r grŵp poblogaeth hwn?		✓	✓		✓	✓	✓
I ba raddau y mae HCF wedi sicrhau bod y llety a ddarperir i grwpiau agored i niwed mor agos â phosibl at eu cartrefi							
CY15: Beth fu effaith yr HCF ar ganlyniadau grwpiau agored i niwed nad ydynt yn gallu byw'n gwbl annibynnol gartref?		✓			✓	✓	✓
CY16: I ba raddau y mae'r HCF wedi cyfrannu at welliannau mewn ansawdd bywyd ac iechyd grwpiau agored i niwed nad ydynt yn gallu byw'n gwbl annibynnol gartref?		✓			✓	✓	✓
I ba raddau y mae HCF wedi lleihau lleoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer plant ag anghenion mwy dwys drwy ddarparu llety iddynt yn nes at adref							
CY17: Beth fu canlyniad yr HCF ar gyfer plant a chanddynt anghenion mwy dwys?		✓			✓	✓	✓

CY18: Beth fu'r effaith ar deuluoedd plant a chanddynt anghenion mwy dwys?		✓			✓	✓	✓
CY19: I ba raddau y mae'r HCF wedi cyfrannu at welliannau mewn ansawdd bywyd ac iechyd plant a chanddynt anghenion mwy dwys?		✓			✓	✓	✓
Trafodwch integreiddio'r HCF gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, a'r graddau y mae HCF wedi cyfrannu at newidiadau mewn modelau gofal							
CY20: I ba raddau y mae cyflawni'r rhaglen HCF wedi cael ei integreiddio'n effeithiol â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso?	✓	✓		✓	✓	✓	
CY21: Pa ddulliau cyllido ar y cyd sydd wedi dod i'r amlwg drwy gyflawni'r HCF, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso?	✓	✓		✓	✓	✓	
Effaith yr HCF ar gyfleusterau cymunedol sy'n darparu gofal cam i fyny/cam i lawr, ailalluogi ac adsefydlu							
CY22: Beth fu'r canlyniadau o ran cyfleusterau cam i fyny/cam i lawr, ailalluogi ac adsefydlu yn y gymuned?		✓			✓	✓	✓

CY23: I ba raddau y mae'r cyfleusterau hyn wedi effeithio ar ansawdd bywyd ac iechyd y poblogaethau targed?		✓			✓	✓	✓
I ba raddau y mae'r HCF yn sicrhau y gall gofalwyr gael mynediad at seibiant eu hunain neu i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt							
CY24: Beth fu'r canlyniad i ofalwyr yn sgil yr HCF?					✓	✓	✓
CY25: I ba raddau y mae'r poblogaethau targed wedi elwa o seibiant?					✓	✓	✓
I ba raddau y mae atebion tai HCF yn addas ar gyfer yr hirdymor							
CY26: Beth yw'r ffactorau ariannol, gweithredol ac amgylcheddol a allai fod wedi effeithio ar ddyfodol atebion tai HCF?	✓			✓	✓	✓	
CY27: I ba raddau y mae anghenion y dyfodol wedi'u nodi ac y mae cynlluniau'n cael eu gwneud ar eu cyfer?	✓			✓	✓	✓	
CY28: I ba raddau y mae'r gwaith o fewn HCF yn integreiddio i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach?	✓			✓	✓	✓	
CY29: Pa dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod prosiectau a ariannwyd wedi arwain at					✓	✓	

arbedion ariannol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol?							
--	--	--	--	--	--	--	--

Atodiad B Canllaw trafod ar gyfer y cyfweiliad cwmpasu

A: Cefndir

1. I ddechrau, allech chi ddweud wrthyf am eich rôl bresennol a sut yr ydych yn ymwneud â'r HCF?

- Teitl swydd, rôl a throsolwg byr o'ch cyfrifoldebau?

[Trafodwch gyfrifoldebau'n ymwneud â: dylunio, gweithredu, rheoli, polisi, monitro, llywodraethu, gwerthuso'r rhaglen]

- Ers faint ydych chi wedi bod yn y rôl?
- Ydy eich rôl neu'ch ymwneud â'r HCF wedi newid dros amser?

B: Y rhesymeg dros yr HCF

2. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Sut y mae'r HCF yn cyd-fynd â chyd-destun polisi a deddfwriaethol cyfredol Cymru?

3. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Cyn yr HCF [mae bellach yn ei 5^{ed} flwyddyn], pa raglenni cyllido oedd ar waith yng Nghymru/eich rhanbarth chi i gefnogi darparu tai a llety i bobl heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymdeithas sydd ag anghenion cymorth gofal?

- Sut mae'r HCF yn wahanol i'r Gronfa Gofal Integredig flaenorol?

4. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Beth oedd yr ystyriaethau allweddol wrth ddylunio'r HCF?

- Sut oeddech chi'n rhagweld y byddai'r HCF yn ategu
 - y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso
 - y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r
 - rhaglen Grant Tai Cymdeithasol?

5. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Pa angen y mae'r HCF yn ceisio ei ddiwallu?
- Holwch am bwysau ar y system, prinder gweithlu, oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty, diffyg capasiti ar gyfer cam i lawr ac ailalluogi
6. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Beth yw prif nodau ac amcanion yr HCF?
- Sut olwg sydd ar lwyddiant ar y lefel genedlaethol/ranbarthol?
 - Sut olwg sydd ar lwyddiant i'r grwpiau blaenoriaeth sy'n gymwys ar gyfer yr HCF?
 - [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] A yw'r amcanion hyn wedi newid o gwbl dros amser? Ym mha ffordd?
 - [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Beth ydych chi'n ei weld fel y prif risgiau i gyflawni nodau ac amcanion yr HCF?

C: Dylunio a chyflawni

7. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Sut mae'r HCF wedi cael ei gweinyddu?
- Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r HCF ar lefel Cymru?
 - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
 - Pa heriau a welwyd?
8. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Sut mae cyllid HCF wedi cael ei ddyfarnu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac ar draws tri amcan y rhaglen?
- Pa brosesau ymgeisio a chraffu a gafodd eu mabwysiadu?
 - Sut mae prosesau wedi amrywio ar draws Amcanion 1 i 3?
9. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Faint o brosiectau sydd wedi cael eu comisiynu ar draws pob Amcan? Sut mae'r prosiectau hyn wedi'u gwasgaru ar draws pum grŵp blaenoriaeth yr HCF?

- Pa fath o brosiectau cymorth tai sydd wedi cael eu cefnogi ledled Cymru? Sut mae hyn yn amrywio rhwng rhanbarthau?
- Sut mae comisiynu prosiectau ar Amcan 1 HCF/Grant Tai Cymdeithasol ar y cyd wedi gweithio'n ymarferol?

10. [Arweinwyr Byrddau Iechyd Rhanbarthol] Sut y mae'r HCF yn cael ei gweinyddu o fewn y rhanbarth?

- Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith i oruchwylio'r ffordd y caiff y rhaglen HCF ei chyflawni ar lefel ranbarthol?
- Pa brosesau ymgeisio sydd wedi'u rhoi ar waith?
- Sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi goruchwylio'r broses o ddyfarnu cyllid ar gyfer prosiectau Amcan 3 (prosiectau bach) ar draws y rhanbarth?
- Pwy yw'r prif bartneriaid cyflawni yn y rhanbarth?

11. [Arweinwyr Byrddau Iechyd Rhanbarthol] Sut mae cyllid HCF wedi cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth ac ar draws tri amcan y rhaglen?

- Pa fath o brosiectau cymorth tai sydd wedi cael eu cefnogi ledled y rhanbarth?
- Faint o brosiectau ar draws pob Amcan sydd wedi cael eu hariannu hyd yn hyn yn eich rhanbarth chi?
- Sut mae'r prosiectau hyn wedi'u gwasgaru ar draws pum grŵp blaenoriaeth yr HCF?

Ch: Y cynnydd hyd yma

12. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Faint o brosiectau HCF sydd:

- Wedi cael eu cwblhau?
- Yn dal ar y gweill?

13. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Pa wybodaeth am wariant ariannol y gallwch chi ei rhannu gyda ni?

- A oes data ar wariant ar gael ar lefel rhaglen, amcan, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phrosiect unigol?

14. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru] Beth fu'r prif heriau y mae prosiectau HCF wedi'u hwynebu?

- A beth sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer prosiectau HCF?
- A oes unrhyw wersi sy'n dod i'r amlwg ynghylch yr hyn sy'n gweithio/nad yw'n gweithio ar gyfer cynllun cyllido sy'n cefnogi darparu tai a llety â chymorth?

Dd: Casglu data

15. [Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Pa ddata gweinyddol a data monitro y gallwch chi eu rhannu gyda ni ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gan brosiectau'r HCF?

16. [Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] Pa fath o dystiolaeth ydych chi'n ei chasglu am effaith prosiectau'r HCF ar eu defnyddwyr targed?

- Pa fylchau sydd yn y dystiolaeth?
- A oes unrhyw ddata eraill yn cael eu casglu ar lefel prosiect neu ranbarthol y tu hwnt i'r data a adroddir i Lywodraeth Cymru?

E: Rhaglen waith y gwerthusiad

17. [Pawb] Pa feysydd dysgu allweddol ydych chi'n gobeithio eu gweld o'r gwerthusiad hwn?

- Sut fydddech chi'n defnyddio hyn?

18. [Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol] [Nodyn i'r ymchwilydd]: Disgrifiwch y dull arfaethedig o ymgymryd â gwaith ymchwil cynradd a chynigiwch gyfle iddynt ofyn cwestiynau.

- Beth yw eich barn chi am hyn?
- Ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau wrth fabwysiadu'r dull hwn?

- Rydym yn bwriadu cyfweld â thua 5 rhanddeiliad o'ch rhanbarth. A fyddech chi'n gallu awgrymu enwau a'u cael i gytuno i rannu eu manylion cyswllt gyda ni?
- A oes unrhyw brosiectau HCF blaenllaw y dylem ystyried eu cynnwys yn ein sampl?
- A oes unrhyw brosiectau HCF a fyddai'n addas ar gyfer gwaith maes gyda defnyddwyr?

19. A fyddai staff o'r prosiectau hyn yn barod i helpu i annog defnyddwyr i gyfrannu?

Atodiad C Dogfennau polisi a echdynnwyd a'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer echdynnu

Roedd y dogfennau polisi a adolygwyd er mwyn llunio'r Ddamcaniaeth Newid fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru: Y Gronfa Tai â Gofal (HCF) – Canllawiau 2022 i 2023
- Llywodraeth Cymru: Cynllun Grant Tai Cymdeithasol (diweddarwyd ddiwethaf 2024)
- Llywodraeth Cymru: Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (papur gwyn) – ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well (12/01/2021)
- Llywodraeth Cymru: Cronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol – Canllawiau Refeniw 2022 i 2027
- Cynlluniau Cyfalaf Strategol Rhanbarthol: adolygwyd 7 dogfen, un ar gyfer pob rhanbarth
- Llywodraeth Cymru: Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso lechyd a Gofal Cynllun strategol Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu Cymdeithasol: Canllawiau 2022 i 2025
- Llywodraeth Cymru: Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso lechyd a Gofal Cymdeithasol: Canllawiau 2025 – 2027
- Llywodraeth Cymru: Rhaglen Lywodraethu: Diweddariad (2021)

Cynlluniwyd y dull echdynnu i'w ddefnyddio ar draws ystod amrywiol o ddogfennau, gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, datganiadau polisi, canllawiau rhaglenni, a deunyddiau monitro, ac mae pob un ohonynt yn chwarae rhan wahanol o ran llunio rhesymeg y rhaglen. Nid pwrpas y ffurflen echdynnu oedd creu crynodeb cynhwysfawr nac atgynhyrchu blociau o destun o bob dogfen.

Yn hytrach, ei nod oedd echdynnu'r prif elfennau o resymeg polisi sy'n egluro pam mae'r HCF yn bodoli, pa broblemau y bwriedir iddi ddatrys, sut y disgwylir i newid ddigwydd, a pha ganlyniadau a ragwelir. Y pwyslais oedd nodi'r rhagdybiaethau achosol a'r llwybrau sydd wedi'u hymgorffori mewn dogfennau polisi a dogfennau'r rhaglen.

O ystyried yr amrywiad yn y mathau o ddogfennau a lefel y manylder, mabwysiadwyd dull echdynnu hyblyg a deongliadol. Raoedd rhai dogfennau'n cynnwys disgrifiadau manwl o fecanweithiau a chanlyniadau, tra bod eraill ond yn eu hawgrymu neu'n canolbwyntio'n

bennaf ar egwyddorion, dyheadau neu gyfyngiadau. Lle nad oedd mecanweithiau, rhagdybiaethau, na chanlyniadau wedi'u nodi'n llawn, fe wnaeth yr echdynwyr gywain cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl gan ddefnyddio eu barn broffesiynol, gan wneud y rhesymeg sylfaenol yn eglur yn hytrach nag yn ymhlyg.

Yn gryno, roedd y broses echdynnu yn ddetholus yn hytrach nag yn gynhwysfawr, gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf perthnasol er mwyn deall sut y bwriedir i'r HCF greu newid, gan gydnabod bod rhesymeg polisi yn aml wedi'i dosbarthu, yn anghyson, ac yn anghyflawn ar draws y dogfennau.